

ECO'R WYDDFA

RHIF 385

CHWEFROR 2011

PRIS 50c

Yn y rhifyn hwn:

- Merched y fro yn bowllo deg
- Helynt "Ianws" yn y Siambr
- Gŵyl Ffilmiau Mynydda
- Byrhoedledd Adeiladau

RHAGOROL!



CANMOLIAETH I YSGOL GYMUNED CWM Y GLO

Mae Ysgol Gymuned Cwm y Glo yng Ngwynedd wedi derbyn adroddiad hynod bositif gan Estyn yn dilyn arolygiad o'r ysgol cyn y Nadolig. O ganlyniad, mae'r ysgol yn ymuno â charfan ddethol o sefydliadau addysg yng Nghymru sydd wedi derbyn statws 'Rhagorol' mewn agwedd o'u gwaith gan yr Arolygwyr. Ymhlith yr agweddau a nodwyd fel rhagoriaethau oedd arweinyddiaeth a systemau hunan arfarnu.

Nodwyd fod y gofal sydd gan yr ysgol am ei phlant, ei pholisiau gwrth fwlio ac addysgu a chyfrifoldeb cymdeithasol y plant eu hunain, yn rhagorol.

Adroddodd yr Arolygwyr fod y rhieni, mewn cyfarfod gyda'r tîm arolygu, yn unfrydol yn eu canmoliaeth o'r ysgol a'r rhan y mae'n chwarae ym mywydau eu plant.

Holwyd aelodau o'r Cyngor Ysgol ynglŷn â'u teimladau yn dilyn yr arolygiad. Dywedodd un aelod o'r cyngor: 'Y peth gorau oedd clywed un o'r Arolygwyr yn dweud "Wow!" wrth agor fy llyfr a gweld fy ngwaith.' Yn ôl aelod arall, 'Roedd o'n deimlad braf iawn clywed bod yr Arolygwyr yn hoffi ein hysgol ni cymaint!'

Canmolwyd rôl y llywodraethwyr a'r gymuned ym mywyd yr ysgol. Ac adnabuwyd dwyieithrwydd

naturiol, y parch sydd gan y rhieni a'r plant i'r iaith Gymraeg a'r Saesneg, a'r gwaith mae'r ysgol yn ei wneud i hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig fel agweddau rhagorol.

Dywedodd Cadeirydd y Corff Llywodraethol, y Cyngorydd Brian Jones: 'Mae Estyn wedi adnabod arweinyddiaeth rhagorol a gweledigaeth glir y pennaeth, Mr Garem Jackson, ynghyd â gwaith caled disgyblion a staff arbennig yr ysgol, ac mae'r adroddiad yn glod mawr iddyni. Mae'r ysgol wedi dod yn bell iawn mewn cyfnod byr o amser, ac mae systemau newydd hunan arfarnu'r ysgol yn sylfaen gadarn iawn i welliant pellach.'

YN EI CHANOL



Da gweld fod pob un yn tynnu ei bwysau yn ystod y tywydd mawr.

ECO'R WYDDFA

RHIF 385

CHWEFROR 2011

Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i
Penarth**

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com
neu Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu: ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (077263)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (070740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (074839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (074839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (070292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (072193)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (070580)

CAEATHRO: Olive James, Hafan, Bryn
Gwna (077438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (050799)

GWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (072275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (070292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (070740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(075384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (071820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(070407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Nol-y-Bryn (072270)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (050570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol

NOS SUL, 20 CHWEFROR

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, 3 MAWRTH

Pyddiad 0900

Nos SUL, 27 CHWEFROR

Sefydliad Goffa Llanrug

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi i Law	Dyddiad Plygu	Ble
Mawrth	Chwefror 20	Mawrth 3	Llanrug

Llythyrâu

Annwyl Olygydd
Hyderaf y bydd y canlynol o
ddiddordeb i'r darllenwyr.

Smyglwyr ac adeiladwyr
llongau, goleudai a badau
achub, rowndio'r Horn a
hwylio'r glannau, achub
bywydau a llongdrylliadau,
pysgotwyr a fforwyr, traethau
bychain anghysbell a bwrllwm
Tiger Bay - mae i Gymru hanes
morwrol cyfoethog, diddorol,
amrywiol a chyffrous a gellir yn
hawdd ychwanegu sawl maes
morwrol at y rhestr hon.

Sefydlwyd **MOROL**
(Sefydliad Astudiaethau Hanes
Morwrol Cymru) gyda'r bwriad
o hybu diddordeb ym mhob
agwedd o'n gorffennol morwrol.
I'r perwyl hwn mae gan
MOROL raglen gyhoeddi
gyffrous, yn cynnal darlithoedd
- gan gynnwys Darlith Goffa
Alced Eamcs - a chynhadledd
forwrol genedlaethol flynyddol
ac yn hybu cydweithredu rhwng
amrywiol gymdeithasau a
sefydliadau cr budd hyrwyddo
ein hanes morwrol. Yn
allweddol i lwyddiant **MOROL**
mae brwdfrydedd a diddordeb y
cyhoedd ar hyd a lled Cymru, a
thu hwnt!

Felly, os oes gennych
ddiddordeb mewn unrhyw
agwedd ar hancs morwrol
Cymru neu os oes gennych
unrhyw hanesion neu
ddogfennau a ddylai fod yn
hysbys i bawb sydd efo
diddordeb yn ein trefnadaeth
forwrol, beth am ystyried
ymuno â **MOROL**. Cewch fwy o
wybodaeth ar ein gwefan
www.morol.eu. Edrychwn
ymlaen at glywed gennych.
Yn gywir

DILWYN MORGAN
Ysgrifennydd

FFERM FFACTOR

Annwyl Ddarllenwyr
Mi fydd Fferm Ffactor yn ôl ar
sgrin S4C y flwyddyn yma ac
mae'r tîm cynhyrchu eisiau
clywed gan unigolion hwyliog a
brwdfrydig a hoffai gystadlu am
deitl 'Fferm Ffactor 2011'.

Os ydych chi yn hoffi sialens
ac wrth eich bodd gyda ffermio
a'r bywyd gwledig fe hoffem
glywed gennych. Byddwn yn
ystyried ceisiadau gan ddynion
a merched sydd dros 18 oed ac
sy'n ffermio unai'n llawn amser
neu rhan amser.

Os hoffech chi gael y cyfle
bythgofiadwy i fod yn rhan o'r
gyfres gyffrous hon, a chystadlu
am Isuzu Rodeo Denver
newydd sbon, ewch i
www.s4c.co.uk/ffermffactor
neu, am fwy o wybodaeth a
ffurflen gais cysylltwch â ni
trwy ffonio (01286) 685300. Y
dyddiad cau ar gyfer derbyn
ceisiadau fydd 31 Mawrth 2011.
Yn gywir

TIM FFERM FFACTOR

Cwmni Da,
Cac Llennor,
Caernarfon

BARN Y CYHOEDD

Annwyl Ddarllenwyr
Rwy'n fyfyrwraig M.Phil ym
Mhrifysgol Aberystwyth ac yn
astudio gwaith Angharad Price
a gweithiau craill sydd wedi
ennill y Fedal Ryddiaith, gan
ddadansoddi eu derbyniad a sut
mae 'O! Tyn y gorchudd' wedi
dod yn ffenomenon ac yn
'glasur' mor gyflym.

Er mwyn casglu barn yr
darllenwyr, rwyf wedi creu
holiadur. Felly os ydych chi wedi
darllen O! Tyn y gorchudd ac
yn fodlon rhannu eich
sylwadau a'ch teimladau
amdano, cysylltwch â mi. Mae
derbyn barn y cyhoedd am y
nofel hon yn holl bwysig ar
gyfer fy nhraethawd ymchwil,
felly fe fyddwn yn ddiolchgar
iawn am bob cymorth gyda'r
gwaith.

Cedwir eich holl fanylion yn
gyfrinachol wedi i chi lenwi'r
holiadur.

Er mwyn derbyn copi ohono,
gallwch fy c-bostio -
bmw7@aber.ac.uk.

Croeso i chi fy ffonio hefyd
neu gyrrwch neges destun
gyda'ch cyfeiriad ac fe wna i
yrru'r holiadur i chi -
07799711988.

Diolch yn fawr am eich
cymorth ac edrychaf ymlaen at
glywed gennych yn fuan.

BETHAN WILLIAMS

RHODDION

£20: Cymdeithas Undebol
Capel Coch; Mr Evie Wyn
Jones, 3 Bryntirion,
Penisarwaun; Tom Parry,
Hagley; Ellen a Gertie, 4
Hafan Elan, Llanrug.

£10: Mrs Beryl Griffiths, 5
Maes Gwylfa, Deiniolen;
Mrs Elizabeth Hughes, 1
Bwthyn, Deiniolen; Mrs
Alice Griffith, Tan y Bwlch,
Dinorwig; Kathleen Jones,
Kemard, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug.

£5: Elwyn S. Jones, Dwyfor,
Nant Peris; Mrs Sylvia Jones,
Marian Terrace, Deiniolen;
Ellen a Gwynfor Ellis,
Rhoslan, Bethel; Iola Evans,
Stryd Fawr Llanberis;
Glenys Owen, 9 Stryd Yr
Wyddfa Llanberis; Ellis
Wyn, 6 Ffordd Deiniol,
Deiniolen; Mari Ellis, 3
Hafod Oleu, Deiniolen; Er
cof am y ddiweddar Mrs
Grace E. Maxwell, gan Mrs
Sylvia Jones; er cof am Owen
Wyn Jones, Toronto, gynt o
Graianfryn, Waunfawr;
Margaret Jones, Y Dalar Deg,
Waunfawr.

Côr Meibion Dinas Bangor

Yn ystod misoedd yr Hydref
a Thachwedd bu'r
Arweinydd James Griffiths
oddi cartref yn arholi cerdd
yn Awstralia, gan gynnwys
sawl canolfan o Cairns i
Sydney. O ganlyniad i hyn yr
oedd y Côr yng ngofal
medrus yr Is-Arweinydd,
Gwilym Lewis a'r Cyfeilydd
Lowri Roberts Williams.
Cafwyd sawl ymarfer prysur
iawn yn ystod y cyfnod hwn
yn arwain at y Nadolig. Bydd
y Côr yn ail gychwyn ar 12
Ionawr yn Ysgol y Faenol.
Dyma'r amser i ddarpar
aclodau newydd ddod draw.
Prif weithgaredd 2011 fydd y
daith i Awstralia ym mis Medi.

CANLYNIADAU RAFFL CLWTWEITHWYR PERIS

Caoglwyd £1000 gan
Glwtweithwyr Peris tuag at
Uned Siroc Ysbyty Gwynedd,
i'w galluogi i brynu llyfrau,
megis gwybodaeth ynglŷn â'r
cyflwr, i'r cleifion a'u teuluoedd.

Enillwyr y Raffl eleni oedd:
1af (Cwilt Dwbl): Mrs Kavaner,
Manccinion; 2il (Cwilt Glin):
Mrs Margaret Williams, Bethel;
3ydd (Cwilt Cot): Mrs Carol
Wilson, Moelfre.

Diolch o galon i bawb am ein
cefnogi unwaith eto.

Community First Gymunedol

**Awydd £1,000 tuag at eich
prosiect chwaraeon
cymunedol?**

Mae'r Gist Gymunedol yn
cynnig grant o hyd at £1,000
i gefnogi cynlluniau
chwaraeon a
gweithgareddau egniol
newydd neu ychwanegol yn
y gymuned.

Cysylltwch â:
Rhian Dobson
Smyddog Datblygu
Chwaraeon
01758 704 054
Rhian@eridobson@gwynedd.co.uk



Llythyr

Annwyl Ddarllenwyr

Ar 3 Mawrth 2011 bydd pobl Cymru yn pleidleisio mewn refferendwm ar bwerau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae gan y Cynulliad y pwerau i wneud penderfyniadau dros nifer o feysydd penodol – y rhan fwyaf sy'n effeithio ar ein bywydau bob dydd megis iechyd, addysg a'r amgylchedd. Gall Llywodraeth y Cynulliad, gyda chefnogaeth y Cynulliad, ddewis sut i wario arian ond ar hyn o bryd ni all benderfynu ei hun newid y gyfraith yn y meysydd hyn – mae'n gorfod cael caniatad gan Weinidogion ac Aelodau Seneddol yn San Steffan.

Dair blynedd yn ôl, roedd ACau eisiau ei gwneud yn haws i deuluoedd yng Nghymru gael cartrefi fforddiadwy. Cafodd cynigon tebyg a ddygwyd ymlaen yn yr Alban a Gogledd Iwerddon eu pasio yn sydyn, ond rhaid oedd i ni gael caniatad gweision sifil a mynd trwy broses hirfaith yn Nhŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin cyn gallu gweithredu ewyllys ein Cynulliad etholedig.

Mae cyfreithiau ar gyflwyno taenellwyr dŵr mewn cartrefi newydd, diwygio ein system icchyd meddwl a'i gwneud yn haws rhoi organau, hefyd wedi eu dal i fyny gan Lundain.

Ein barn ni yw y dylai cyfreithiau sy'n effeithio ar Gymru yn unig gael eu gwneud yng Nghymru.

Byddai pleidlais 'na' yn ei gwneud yn anos fyth gwneud pethau yn gynt, gan y bydd yn rhoi csgus i Weinidogion a gweision sifil yn Whitehall arafu'r broses fwy fyth.

Dros y degawd diwethaf, mae'r Cynulliad yn raddol wedi tyfu mewn maint a hyder. Bydd pleidlais IE yn helpu i symud Cymru ymlaen, gan roi llais cryfach i Gymru. Bydd yn rhoi i'r bobl yr ydym yn eu hethol yr arfau i wneud y gwaith a darparu gwell gwasanaethau i'n cymunedau.

Os am wirfoddoli gyda'r ymgyrch yn eich milltir sgwâr cysyllter â:

post@iedrosgymru.com
neu ysgrifennwch at
Ie Dros Gymru,
d/o Unsain Cymru,
Tŷ Unsain,
Stryd Custom House,
Caerdydd CF10 1AP
Yn eiddoch yn gywir

ROGER LEWIS
Cadairdd
Ie Dros Gymru

Cofiwch gefnogi
ein hysbysebwr

Ailbenodi Fforymau Mynediad Lleol Eryri

Dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) yn gyfrifol am weinyddu Fforymau Mynediad Lleol. Sefydlwyd dau Fforwm ym mis Ebrill 2002, un ar gyfer de ac un ar gyfer gogledd y Parc Cenedlaethol.

Swyddogaeth y Fforymau yw cynghori Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cyngorau Gwynedd a Chonwy ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol ynghylch sut y gellir gwella mynediad i gefn gwlad. Mae'r aelodaeth wedi ei ffurfio o unigolion sy'n adnabod yr ardal yn dda, ac yn barod i weithio ag eraill i gyflawni gwir welliannau ar y ddaear.

Rhaid ailbenodi'r Fforymau bob tair blynedd ac felly mae APCE yn estyn gwahoddiad i unigolion sydd â diddordeb mewn cael eu hystyried ar gyfer aelodaeth i gwblhau ffurflen gais. Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 28 Chwefror sy'n golygu y bydd y broses ddeddfol wedi ei chwblhau erbyn 13 Ebrill 2011.

Am ddisgrifiad o'r hyn y mae aelodaeth yn ei olygu, ynghyd â manylion o'r rhinweddau y mae'r Awdurdod yn chwilio amdanynt, a chopi o'r ffurflen gais, cysylltwch â mi neu Peter Rutherford, Swyddog Mynediad Parc Cenedlaethol Eryri.
Yn gywir

EMYR WILLIAMS

Cyfarwyddwr Rheolaeth Tir
Ffôn: 01766 770274
emyr.williams@eryri-npa.gov.uk
peter.rutherford@eryri-npa.gov.uk

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol
2 Stryd y Plas, Caernarfon
(01286) 672727
8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswariant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

DIOLCH AM BLYGU



Hei, Daniel bach! Plygu ti fod i wneud, nid darllen!

Ar y prynhawn dydd Iau, cyn daeth yr eira trwchus fin nos, tro Ysgol Brynrefail oedd hi i blygu *Eco'r Wyddfa* er mwyn ei ddosbarthu cyn y Nadolig.

Daeth criw o ddisgyblion a staff ynghyd am y prynhawn cyfan, yn cael eu cynnal gan ambell focs o siocled, i fyseddu'r papurach di-ri i'w lle priodol er creu ein papur bro.

Fe gafodd y pennaeth, Mr Eifion Jones, gipolwg cynnar ar y tudalennau cyn ymadael mewn tymer ddrwg am fod llun Gerallt Morris yn y papur a dim sôn am y pennaeth o gwbl!

Daeth Mr Dilwyn Roberts, dirprwy bennaeth i fwya siocled ond phlygodd o'r un dudalen ond, chwarae teg i'r ddirprwyes, Ms Eirwen Williams, bu hi yn gweithio'n ddyfal trwy'r cyfnod.

Diarhebbion 25:2


Os oes angen prawf – cafwyd 'mis bach'
yn enghraifft deg o feddwl dyn
yn ccisio trefn llw bu trefn yn troi
amser byd mewn amser ei hun.

Mae chwarter niwrnod o oriau dros ben
wedi cyfannu cylchdro'r rhod
'nôl calendr ifanc y Gregor Bab -
felly, daeth blwyddyn naid i fod!

Bob pedair mlynedd – 'chwarteri hyn
sy'n gwneud mewn cyfri, ddiwrnod llawn
i'w osod yng nghynffon Chwefror byr
yn rifyddol wyddonol iawn!

Ond bu haul a lloer, llanw a thrai,
tro'r tymhorau er 'bore'r byd...
'Gogoniant Duw fu dirgelu peth'
Gogoniant dyn archwilio'r hud!

NORMAN CLOSS



BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

GWASANAETH NADOLIG PLANT YSGOL SUL Y CYSEGR. Cafodd y gynulleidfa niferus wasanaeth hyfryd bore Sul Rhagfyr 12ed o dan arweiniad plant yr Ysgol Sul ar lafar ac ar gân. Paratowyd y gwasanaeth gan Athrawon yr Ysgol Sul a chroesawyd pawb yno gan yr Arolygwr, Myfanwy Harper. Yn ôl yr arfer aeth Mair a Joseph i Fethlehem a daeth yr angylion, bugeiliaid a'r doethion yn gwmni iddynt. Atgoffwyd pawb sut y bu i bobol Oberndorf, yn Awstria, ar noswyl Nadolig yn 1818 glywed y Garol "Dawel nos" am y tro cyntaf. Swynwyd pawb yn Y Cysegr y bore hwn wrth i'r Garol gael ei chyflwyno gan ddau gornet ac Organ.

I gloi cyfraniad y plant daeth pawb i'r Sêl Fawr fel Côr i ganu "Dewch at y Crud", ac yna cafwyd anerchiad amserol a phwrpasol gan y Gweinidog. Heb oedi dim aeth y plant drwodd i'r Festri i fwynhau ei hunain mewn te parti a ddarparwyd gan Athrawon yr Ysgol Sul, cyn derbyn ymweliad ac anrhegion gan Siôn Corn.

BORE NADOLIG. Er gwaetha'r tywydd garw llwyddwyd i gynnal gwasanaeth fore'r Nadolig fel arfer. Croesawyd pawb i'r oedfa gan Lywydd y mis, Geraint Elis. Anfonwyd cofion at Nan Owen a Megan Humphreys, y ddwy wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar, a chroesawyd Aled Griffiths adref o Vancouver. Diolchodd y Gweinidog i'r tîm o ddynion a fu wrthi yn elirio'r cira o gwmpas y Capel. Braf oedd cael clywed datganiad o gerddoriaeth tymhorol wrth gyrraedd y Capel gan grŵp o

offerynwyr prës dan ofal Hefin Evans, a bu iddynt gyfeilio i'r emynau hefyd. Diolchwyd iddynt am eu cyfraniad oedd yn ychwanegiad at naws yr achlysur. Ar ddiwedd y gwasanaeth bu i bawb dderbyn y Sacrament o Gymun. Cyflwynir yr offfrwm i Dŷ Gobaith.

Y GYMDEITHAS

LENYDDOL. Roedd nifer dda o aelodau a dwy ymwelydd yn bresennol yng nghyfarfod y mis yma. Croesawyd pawb ynghyd gan y llywydd Dr. J. Elwyn Hughes a rhoddwyd croeso arbennig i'r siaradwr gwadd, sef y Parchedig Ganon Tegid Roberts. Soniodd am ei ymweliad gyda Chôr Godre'r Aran ychydig flynyddoedd yn ôl i Batagonia, ac yn dilyn hynny roedd yn awyddus i ymweld â'r Wladfa unwaith eto a phan ddaeth cyfle iddo fynd i wasanaethu yno rhaid oedd derbyn y cynnig. Felly ym mis Medi 2010 bu iddo, ynghyd â'i wraig Nant, dreulio blwyddyn allan yn y Wladfa.

Cyfoethogwyd y sgwrs ddifur iawn gyda lluniau o amrywiol adeiladau a Chapeli, dosbarthiadau ysgol ble roedd Nant yn gweithio fel athrawes, gweithgareddau traddodiadol a nifer fawr o bersonau.

Diolchwyd yn gynnes iawn i'r ddau am rannu eu profiadau gyda phawb gan y Parchedig Marcus Wyn Robinson a diolchwyd hefyd i ferched y tē am y banded.

Bydd y cyfarod nesaf nos Fawrth, Chwefror 15 am 7.15 yng nghwmni Gwilym Evans a thestun ei sgwrs fydd Oil Morus Evans.

APÊL BETHEL, SEION A

LLANDDEINIOLLEN, EISTEDDFOD YR URDD 2012. Yn ddiweddar cynhaliwyd GIG yn y Bedol gyda'r grwpiau Y Bandana a Scarabs yn perfformio. Codwyd swm sylweddol fydd yn ein helpu i gyrraedd ein targed o £5000. Diolch i bawb a drefnodd y noson ac i aelodau y pwyllgor am eu rhoddion at y raffl. Fe fydd mwy o weithgareddau yn cael eu trefnu yn fuan a gobeithiwn am gefnogaeth er mwyn cyrraedd y nod.

Diolch i Pat Owen ac i Margaret Rees am eu cyfraniad hael drwy werthu cardiau cyfarch tuag at yr apêl.

Mae croeso i unrhyw un drefnu gweithgaredd i godi arian-dim ond hysbysu'r pwyllgor am hyn.

DIOLCH. Dymuna Alan, Teleri, Tomos a Rhys Pritchard ddiolch i aelodau Ysgol Sul Y Cysesgr, am eu rhodd ariannol yn ddiweddar. Rydym yn ddiolchgar iawn fod pawb yn meddwl amdanom.

MERCHED Y WAWR. Cafwyd noson hynodddifur a hwyliog nos Fercher, 12 Ionawr, yng nghwmni y Parch Marcus Wyn Robinson pan adroddodd yn ei ffordd diddorol ac unigryw ei hun ychydig o'i hanes fel Caplan yn y Llynges. Yr oedd pawb wedi mwynhau yr hanesion yn fawr a diolchwyd iddo yn galonogol iawn gan Mair Read.

Ar ôl dymuno blwyddyn newydd dda i bawb anfonodd ein llywydd, Rhian Hughes, ein cofion a'n dymuniadau gorau at yr aelodau oedd ddim yn bresennol, yn arbennig felly at Nora sydd wedi cael anffawd ac wedi torri ei braich. Estynnodd hefyd ein cofion at aelodau o deuluoedd rhai ohonom sydd heb fod yn dda yn ddiweddar, gan ddymuno adferiad buan a gwell rhagolwg ar gyfer 2011.

Diolchwyd i Elisabeth Evans ac Eirlys Sharpe am wirfoddoli i gymryd rhan dros y gangen yn y prosiect cenedlaethol o gofnodi cynefin, ac i Margaret Williams, Gwyneth Williams, Ellen Ellis, Falmai Owen, Mair Price, Edith Jones a Joyce Roberts am wneud darn o waith croesbwyth ar gyfer ei arddangos yn Sioe Llanellwedd.

Cafwyd ymateb da i apêl elusen Achub y Plant a diolchwyd i bawb a ddaeth â hen getris, ffonau symudol neu stampiau ar gyfer yr apêl. Bydd rhain yn cael eu trosglwyddo i'r elusen drwy law swyddogion y rhanbarth.

Derbyniodd y gangen rodd gan ein Cynghorydd lleol, Huw Hughes, a diolchwyd yn fawr iawn iddo am ei haelioni.

Diolchwyd i Eirlys Sharpe, Margaret Williams a Margaret Eckley am baratoi y banded ac enillydd lwcus y raffl y tro hwn oedd Pat Thomas. Bydd y cyfarfod nesaf ar 9 Chwefror

pan edrychwn ymlaen i groesawu Linda Hughes o'r adran iechyd yng Nghaernarfon.

CAPEL BETHEL. Er gwaetha'r eira a'r rhew cafwyd gwledd yng Nghapel Bethel ar 19 Rhagfyr 2010 gan blant yr Ysgol Sul wrth ddathlu Gŵyl y Geni ar thema y Goleuni. Yn rhan un cafwyd eitemau o ddarlenniadau, gweddiau a charolau pwrpasol cyn mynd at ran dau, at y Gwir Oleuni, i ymweld â'r bugeiliaid, angylion, doethion ac wrth gwrs, Mair a Joseff. Yna diweddu gyda thrydydd rhan, y plant gyda'r gwahanol oleuni; yn ganhwylau, lantern y glowr, y goleudy ayyb, gan ddiweddu gyda'r Beibl, lle cawn i gyd Oleuni.

Roedd y plant wrth eu bodd yn canu 'Be sydd wedi digwydd' a charol Jamaica, gyda'r triawd i orffen, sef Siôn, Moli a Dyfan yn canu 'Croeso i'r Iesu'.

Diolchwyd gan y gweinidog, Y Parch Gwynfor Williams, am y trefniant ac i'r plant am eu gwaith canmoladwy, yna dosbarthwyd yr anrhegion iddynt. Syrpreis o'r mwyaf pan gafwyd paned a chacen i bawb a gair o ddiolch gan Tecwyn ar ran y genod i Beti ac Ellen am yr holl flynyddoedd o wasanaethu yn Ysgol Sul Bethel.

Bydd yr Ysgol Sul yn cario ymlaen hefo'r criw gweithgar ar 9 Ionawr 2011. Cyfanswm yr arian rhydd at apêl Elliw oedd £80. Dymuna Ellen a Beti ddiolch o waelod calon am y geiriau caredig a'r banded.

DIOLCH. Mac Nan Owen, Berwyn, am ddiolch o galon am yr holl ddymuniadau da, cardiau a blodau a dderbyniodd gan deulu, cymdogion a ffrindiau yn dilyn ei gwaeledd a'i chyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

parhad ar dudalen 5

Dros 50? Medrwyh ymddiried yng Nghynnyrch a Gwasanaethau

 **YSWIRIANT CARTREF**

 **NWY A THRYDAN**

 **YSWIRIANT CAR**

 **CYNLLUNIAU ANGLADD**

 **YSWIRIANT TEITHIO**

 **GWYLIAU**

 **GWASANAETH LARWM PERSONOL**

 **YSWIRIANT RHAG TORRI I LAWR**

Darperir yr Yswiriant Cartref, Car a Theithio gan Fortis Insurance Limited. Darperir yr Yswiriant Rhag Torri i Lawr gan Europ Assistance Holdings Limited.

AGE Concern

I gael mwy o fanyllion ymwelwch â ni yn:
Age Concern Gwynedd a Môn,
Ty Seiont, Ffordd,
Santes Helen
Gaernarfon LL55 2YD
Tel: 01286 678310
neu ffroniwch: **0800 085 3741**
neu ymwelwch â:
www.ageconcern.org.uk/products

Age UK yw'r grŵp newydd sy'n uno Age Concern a Help the Aged. Mae taulu Age UK yn cynnwys Age Scotland, Age Cymru a'r Age NI.
Age Concern Enterprises Limited, Central House, 1200 London Road, SW16 4ER

ACOWALB80V2JUL10_CS024825_10

POSH PAWS



TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danhau

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 - 07565791010

ebost-juliaposhpaws@btinternet.com

EISTEDDFOD BETHEL 2010

Dyma hanes a chanlyniadau gwaith Celf a Chrefft a Gwaith Llên o'r Eisteddfod na ymddangosodd yn y rhifyn diwethaf.

Cynhaliwyd yr Eisteddfod ddydd Sadwrn 6ed o Dachwedd 2010. Y Beirniad Llên oedd Lowri Ifan, Caernarfon a'r Beirniad Celf a Chrefft oedd Pat ac Anita Jones, Brynrefail. Gwaith Llên

Enillwyr y tlysau Llên

Y Prif Lenor Cynradd oedd Moli Haf Roberts a'r Prif Lenor Uwchradd oedd Manon Elwyn. Cyflwynwyd y prif dlysau i'r ddau lenor gan Maldwyn John a Manon Gwynedd, Gareth a Manon Griffiths.

Cyflwynwyd Cwpan Teulu Llain yr Ardd am ddarn o Ryddiaith agored i Yvonne Griffith Jones.

Canlyniadau Cystadlaethau Llên

Dosbarth Meithrin (ysgol): 1. Elis, 2. Elan Jones, 3. Maddie a Gwen.
Dosbarth Derbyn: 1. Ashleigh, 2. Bryn a Hannah, 3. Lois a Mari:
Blwyddyn 1: 1. Cai, 2. Haf, 3. Erin.
Blwyddyn 2: Elis a Lowri, 2. Elen a Cadi, 3. Ceri.
Blwyddyn 3: 1. Heledd, 2. Bedwyr a Celt, 3. Ceriann a Morgan.
Blwyddyn 4: 1. Huw, 2. Ywain, 3. Iolo Llŷr.
Blwyddyn 5: Owain Llestyn, 2. Sara, 3. Gethin.
Blwyddyn 6: Moli, 2. Elin, 3. Elen a Ffion.
Blwyddyn 7-9: 1. Alaw Prys, 2. Alaw Prys.
Blwyddyn 10-13: 1. Manon Elwyn, 2. Gethin Griffiths, 3. Greta Jams a Bethan Roberts.

Cystadleuaeth y Llinell Goll

1. Gareth Jams, 2. Rita Williams, 3. Gareth Jams.

Cystadleuaeth traethawd hir ar y testun 'Llanddeiniolen Yfory' (Beirniad Richard Llwyd Jones)
1. Gwenno Parry.

Cystadleuaeth darn o ryddiaith (agored) 1. Yvonne Griffith Jones.

Celf a Chrefft

Enillwyr y tlysau Celfi

Tlws Cynradd – Elis Jones (model 3D)

Tlws Uwchradd – Hari Ifans (model 3D)

Gwaith Creadigol 2D: Ysgol Feithrin. 1. Siwan, 2. Lillie, 3. Kia Jo ac Iwan. **Dosbarth Meithrin.** 1. Gwen, 2. Morgan, 3. Elis. **Dosbarth Derbyn.** 1. Llinos, 2. Tiegan, 3. James. **Blwyddyn 1.** 1. Cai, 2. Jo, 3. Millie May. **Blwyddyn 2.** 1. Chloe, 2. Eden, 3. Cadi. **Blwyddyn 3.** 1. Bedwyr, 2. Celt, 3. Morgan. **Blwyddyn 4.** 1. Angharad, 2. Cara, 3. Amara. **Blwyddyn 5.** 1. Elin, 2. Sara a Sam, 3. Owain Llestyn. **Blwyddyn 6.** 1. Tomos, 2. Emma, 3. Ben. **Blwyddyn 7-9.** 1. Gwenno Parry, 2. Rhidian Price. **Blwyddyn 10-13.** 1. Aaron Hughes, 2. Aaron Hughes, 3. Bronwen Price.

Ffotograffiaeth

Blwyddyn 2 ac Iau. 1. Cai, 2. Cai, 3. Cai. **Blwyddyn 3 a 4.** 1. Tomos, 2. Ioan, 3. Owain Lewis. **Blwyddyn 5 a 6.** 1. Emma. **Blwyddyn 7-9.** 1. Hari, 2. Elliw, 3. William. **Blwyddyn 10-13.** 1. Aaron Hughes, 2. Ffion, 3. Bronwen.

Argraffu neu addurno ffabrig
Blwyddyn 2 ac Iau. 1. Beca Fflur. **Blwyddyn 3-4.** 1. Tomos.

Collage

Blwyddyn 2 ac iau. 1. Iddon, 2. Cai, 3. Elis. **Blwyddyn 3 a 4.** 1. Heledd, 2. Celt a Bedwyr, 3. Sion Lewis ac Owain Lewis. **Blwyddyn 5 a 6.** 1. Elan. **Blwyddyn 7-9.** 1. Hari.

Gwaith Creadigol 3D

Blwyddyn 2 ac Iau. 1. Elis Gruffydd Jones. **Blwyddyn 3 a 4.** 1. Tomos, 2. Celt ac Ywain, 3. Sion Lewis ac Owain Lewis. **Blwyddyn 5 a 6.** 1. Elen Haf. **Blwyddyn 7-13.** Hari Ifans.

Ffasiwn

Blwyddyn 7-13. 1. Gwenno Parry.

Logo Eisteddfod 2011

Blwyddyn 1-13: 1. William, 2. Tomos, 3. Rhidian.

Diolch eto i athrawon yr ysgol gynradd a'r ysgol feithrin am drefnu'r cystadlaethau llên ac arlunio 2D.

DATHLU'R NADOLIG YN YR YSGOL SUL



Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH
Tel. (01206) 672225 Mabilo- 07796 746716

Cofiwch ddefnyddio
SWYDDFA POST BETHEL
(01248) 670261
Gewch groeso gynnes gan **CLED A SUSAN**
Cofiwch am ein gwasanaeth newid prae tramor, uwiriant, tali biliau, etc., yn ogytal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.
A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR
6 a.m. – 7.30 p.m.
(Llun–Sadwrn)
6 a.m. – 3 p.m. (Sul)

Phillip Foulkes
CONTRACTIWR PLASTRO
Mewnol • Allanol
Drylining
Plastfyrddio Yn Ei Le
Ymgynghori Ac
Amcangyfrifi Am ddim
PENCAMPWR PRYDAIN 2009
Enillydd Dosbarth Plastrwr a Chyffredinol
Tel. 07760393155
ebost- phillipfoulkes@hotmail.co.uk

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407



YSGOL GYMUNED

Ysgolion Gwyrdd

Buom ni yn nosbarth Mrs Ray yn brysur iawn yn casglu sbwriel o gwmpas y pentref. Daeth Mr Lee Oliver o Cadw Cymru'n Daclus atom i siarad am bwysigrwydd ailgylchu. Cafodd pawb fenyg a ffon bwrpasol ac i ffwrdd â ni i'r parc - nid i chwarae y tro hyn ond i weithio! Daethom o hyd i bob math o bethau, gan gynnwys darn o gar, sbectol haul a phêl-droed! Cawsom amser gwych!

Ein neges ni ydi "rhowch eich sbwriel yn y bin."

Croeso. Croesawn Miss Bethan Williams yn ôl wedi cyfnod o absenoldeb mamolaeth. Rydym yn diolch i Miss Emma Williams am ei gwaith yn ystod yr absenoldeb a dymunwn y gorau iddi yn ei swydd newydd yn Ysgol Llandegai.

Myfyriwr. Treuliodd Miss Manon Jones, sydd yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Bangor, gyfnod yn nosbarth y Babanod yn ystod mis Ionawr.

Sioe Nadolig 2010. Perfformiwyd Sioe lwyddiannus iawn brynhawn a nos Fercher, 15 Rhagfyr. Diolch i'r plant am berfformiad gwych ac i'r holl staff am eu brwdfrydedd. Rydym yn hynod o ddiolchgar i bawb a ddaeth i gefnogi yn y pnawn a'r gyda'r nos.

Cinio Nadolig. Oherwydd y tywydd garw cyn y Nadolig bu rhaid cynnal y cinio ar ddydd Mawrth, 11 Ionawr. Diolch i Anti Carolyn am ginio blasus iawn oedd yn werth aros amdano.

Casglu Sbwriel. Daeth Mr Lee Oliver, Swyddog Cadw Cymru'n Daclus, i gael sgwrs gyda phlant blwyddyn 2, 3 a 4 fore dydd Mawrth, 11 Ionawr. Yn dilyn y sgwrs aeth gyda'r plant o amgylch y pentref i gasglu sbwriel.

Gweithdy. Croesawyd Bethan Copeland, Swyddog Arbed Dŵr i'r ysgol i gynnal gwasanacth a gweithdy dydd Llun, 24 Ionawr.

Diolch. Dymunwn ddiolch i Eurgain Haf am gyflwyno copi o'i nofel ddiweddaraf, 'Yr Allwedd Aur' yn rhodd i'r ysgol.

CRONFA PENSIYNWYR. Pêl

Bonws Loteri. Enillydd mis Rhagfyr oedd Liz Jones, gyda rhif 17. Llongyfarchiadau. Diolch i bawb am gefnogi'r bêl bonws yn ystod 2010. Byddwn yn parhau eto eleni ac mae ychydig o rifau sbâr os oes unrhyw un â diddordeb i ymuno am £1 y mis. Cysylltwch â Liz ar 872421. Diolch.


DIOLCH. Dymuna Phil, 8 Bryn Tirion ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur ei ben-blwydd yn 60 oed. Roedd wedi mwynhau cwmni pawb a ddaeth i'r parti i ddathlu yng Ngwesty Padarn Lake.

LLONGYFARCHIADAU i Jordan Jones, 24 Bryn Tirion, ar gael ei ddewis yn chwaraewr mwyaf addawol Seindorf Ieuenctid Deiniolen am 2010. Derbyniodd darian er cof am Bessie May Williams i'w chadw am flwyddyn. Da iawn chdi, Jordan.

GWELLHAD. Dymunir adferiad iechyd buan i bawb ohonoch ar ddechrau blwyddyn newydd. Ein cofion annwyl at Anti Mary, Llys y Gwynt, wedi iddi anafu ei phen-glin, hefyd gobeithir fod Brenda Richardson yn gwella wedi iddi lithro ar y rhew a brifo'i hysgwydd. Da dcall fod Eurgain Haf (sy'n derbyn yr Eco yn fisol drwy'r post) yn gwella wedi triniaeth i'w migwrn wedi bron i ddwy flynedd wedi damwain hefo'i cheffyl.

PRIODAS AUR.

Llongyfarchiadau mawr i Ieuan ac Eiriona, Glyn Euron, a ddathlodd eu Priodas Aur ar 25 Ionawr, diwrnod Santes Dwynwen, Santes y Cariadon.



Twm yn ailgylchu ei gardiau Nadolig yn ein bocs glas.



Diwrnod da i ddathlu 50 mlynedd o fywyd hapus gyda'i gilydd. Anfonir cariad mawr i mam a dad a nain a taid gan Emyr a Katy, Ioan, Enlli, Gethin a Lois Eiry, ynghyd â Rhian a John a David, Anya a Lisa a'r teulu i gyd. Mwynhewch y dathlu a phob bendith i chi gan bawb yn y pentref.

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Margaret a Gareth Williams, Waun, ar ddod yn nain a thaid unwaith yn rhagor. Ganwyd mab bychan i Iola, eu merch.

E I S T E D D F O D
GENEDLAETHOL YR
URDD ERYRI. Nos Lun, 31 Ionawr, am 7.00 o'r gloch cynhelir Pwyllgor yn yr Ystafell

Gymuned i drafod gweithgareddau pellach i cwblhau targed Brynrefail a Phenisarwaun. Gwahoddir Ifan Prys atom i gynnig syniadau newydd.

PWYLLGOR Y NEUADD GYMUNED. Tynnwyd Clwb Cant Ionawr a'r enillwyr lwcus oedd Wendy Phillips, Waun a Carys Williams, Meini Glcison, Brynrefail.

Oherwydd y tywydd garw ni chynhaliwyd y Noson Wasael. Felly, er mwyn gallu tynnu'r Raffl Fawr, cynhaliwyd Disgo Dwynwen nos Wener, 21 Ionawr, a hynny yng ngofal ieuenctid y pentref. Ceir mwy o fanylion am y noson hon yn y rhifyn nesaf.

Cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277





Mr Evie Wyn Jones, Arolygwr Ysgol Sul Bosra yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed gydag aelodau'r Ysgol Sul.

nos Lun, 31 Ionawr am 7.30 yn yr Ystafell Gymuned. Dymunir atgoffa ffyddloniaid y Clwb Cant ei bod hi'n amser adnewyddu'r aelodaeth am 2011. £6 y flwyddyn neu 50c y mis yw'r gost neu gellir ymaelodi drwy archeb banc.

DIOLCH

Dymuna Mr Jones ddiolch o waelod calon am y caredigrwydd a ddangoswyd iddo ar ei ben-blwydd yn 80 oed. Diolchir i'w chwirydd, Nancy a Dilys a'r teulu, cymdogion a ffrindiau, ac yn arbennig i Ann Ifans ac Elizabeth Jones a phlant yr Ysgol Sul am y wledd ac am ddiwrnod llawn cariad. Diolch

o galon i bawb.

Dymunir diolch hefyd i Fiona am drefnu'r trip i Lanberis. Oherwydd yr eira trwchus ni allai'r trên bach gario'r plant i Groto Siôn Corn, ond fe ddaeth Siôn Corn i'w anrhegu yn y caffi ac fe gafodd pawb ddiod a mins pei. Bydd cyfle eto i gael mynd ar y Trên Bach pan fydd y tywydd yn dynnerach.

YSGOL SUL BOSRA. Cafwyd Parti Nadolig a dathlu pen-blwydd arbennig Mr Jones, yr Arolygwr, i orffen tymor y Nadolig. Cyflwynwyd anrheg fechan i Mr Jones fel arwydd o ddiolch am ei garedigrwydd a'i ffyddlondeb.

STORI FER FUDDUGOL 'STEDDFOD BRYNREFAIL

Buddugol - Lily, Gwyrfaï AIL GYFLE

Wyth mlynedd o ddechro a meddwl am yr her, y boen, y rhwystredigaeth sydd o fy mlach i bob diwrnod. Yr un peth dro ar ôl tro. Dwi'n cofio'r diwrnod cyntaf. Y diwrnod cyntaf iddo fo, y dyn ei hun, y cawr, y bwystfil, fy ngham-drin yn rhywiol. Y sglyfath budr. Y diawl.

Chwedd oeddwn i. Plentyn bach bodlon, hapus yn llawn egni. Babi diniwed. Roeddwn i'n dal angen gofal a rhywun i chwarae gyda mi. Ers y diwrnod hwnnw 'dw i wedi bod yn ocdolyn. Ers yr hunllef crehyll yna rwyf yn ocdolyn anhapus a di-hyder. Mae'r cythraul wedi dwyn popeth - fy mhleentyndod, fy hapusrwydd a'r rhyddid i fod yn Elin. Rwyf bellach yn ferch sy'n dioddef poen sydd ddim werth byw drwyddo. Lladdodd fy nhad i. Dim ond corff wyf bellach yn cael ei dafu o le i le.

Ga i ail gyfle i fyw bywyd hapus, saff fel fy ffrindiau? Cael atgofion melys o 'mhleentyndod? Cael plant fy hun heb weld fy nhad ynddyni? Ydy'r cysan yn freuddwyd? Efallai nad oes neb yn fy ngharu i.

'Stopiwch! Da chi, stopiwch!'

gwaeddais ar dop fy llais.

'Petawn i'n gwybod dy fod di am fod mor anniolchgar â hyn baswn i erioed wedi gwneud gymaint o bethau i ti Elin!' bloeddiodd arna i gan ddechrau fy nharo i eto.

'Help!' dywedais. Dyna'r unig beth oedd yn mynd trwy fy meddwl.

'Help? Pa greadur heblaw amdana i sydd am dy helpu? Rwyf ti, Elin, yn union fel dy fam. Yr unig beth alla i gysylltu rhwng y ddwy ohonoch ydi'r diafol. Dwi wedi cynnig i ti fynd i le gwell fel na fydd rhaid i ti ddioddef. Fuaset ti ddim yn gorfod meddwl am dy fam pob diwrnod. Cei fynd ati ond mae'r diafol eisiau ti gyda gweddill fy mhobl i. Uffern yn uffern! Gacodd y drws yn glep gan fy ngadael yno.

Beth ydw i wedi'i wneud i haeddu'r holl greulondeb?

Bore dydd Llun. Grêt, ysgoll! Cadw'r gyfrinach erchyll dan glo. Ond pam? Pam ddylwn i gadw'r gyfrinach? Pam ddylwn i gadw'r drwm yn fy mhen i guro bob tro gwclaf fy nhad? 'Dw i bron â mynd yn hurt. Pam ddylwn i guddio yn fy nghragen am lawer hirach? Cuddio popeth, fy nghorff, y boen rwyf

yn ei ddioddef bob eiliad o'r diwrnod. Mae gen i ofn y byd, y byd erchyll hwn rydym yn byw ynddo.

Mae'n rhaid i mi wneud rhywbeth. Mae'r drwm yn mynd yn drymach ac y galetach bob diwrnod, mae fy mhen yn chwyrlïo fel Seren Gatrîn yn llawn geiriau yn fy herio. Mae'n rhaid i mi gael hyn allan o fy system.

'Miss, ga i air os gwelwch yn dda?' dywedais fel llygoden fach.

'Cei tad, Elin, ydi popeth yn iawn?' meddai gan edrych yn boenus.

'Ydi...wel...nacydi.' Codais fy llais.

'Wel, be' ydi'r broblem? Mae gen i drwy'r dydd, paid â phoeni os ydi hi'n stori hir,' dywedodd mewn llais esmwyth.

'Fy nhad... mae o wedi fy... fy nghamdrin!' Llifodd afon o ddagrau lawr fy moch. Dagrau o ofn a rhyddhad.

Dyna'r diwrnod olaf i mi gael fy nghloi yn y gragen. 'Dw i wedi dianc! Roedd yn anodd agor y gragen, roedd yn rhaid i mi fod yn gryf, cryf iawn i bobl glywed fy llais. Ni chaf fyth fyw bywyd fel pawb arall ond mae fy ffantasi o fyw bywyd merch ifanc normal yn parhau i guddio mewn cragen.

Wnaeth rhai aelodau o'r teulu ddim fy nghoelio ond roedd gen i dystiolaeth. Weithiau byddwn yn diolch iddo ond mae'n rhaid i mi fyw gyda'r dystiolaeth hwnnw. Roedd fy nhad yn un gwan, toedd o ddim yn ddigon cryf i ddelio gyda'r creulondeb oedd o wedi ei wneud i mi.

Neidiodd, neidiodd y dyn bychan. Rydw i'n fawr erbyn hyn, yn fawr ac yn llawn yn fy nghalon. Rwy'n falch bod fy nhad wedi mynd. Ond mae yna un anfantais - buaswn yn hoffi ei weld o'n dioddef y boen a gefais i yn hytrach na rhedeg i ffwrdd a dianc rhag y cyfan. Ddaw o fyth yn ôl rŵan.

Mae un peth yn bendant - 'na i fyth gydymdeimlo ag o yn ei farwolacth. Gwyddaf ci bod yn rhy gynnar i deimlo'n hapus gyda fy hun. Mae pobl yn fy nhrin fel fod gennyf rhyw glefyd difrifol. Dydyn nhw byth yn dweud y gair 'dad' wrtha i, na 'rhieni' a 'teulu'. Ond, mae'n iawn gan fy mod yn gryf. Does gen i ddim sachau trymion ar fy nghefn yn fy nhynnu i lawr. Gallaf gerdded yn hamddenol heb gario'r holl straen.

* * *

Rwyf bellach yn ocdolyn, caf fyw fy mywyd fy hun. Yn ddiweddar, wnes i ail wneud yr ardd. Roedd hi'n arfer bod yn wyllt a pheryglus. Blodau marw a blodau wedi eu chwalu. Mae pethau wedi newid ond mae yna rannau gwyllt yn y cefndir. Yn ei ganol mae'r blodau marw yn parhau i fod yno. Nid y blodyn

toredig ydw i ddim mwy, cwffiais yn galed i ddarganfod gweddill y rhannau i 'ngwneud yn gyflawn unwaith eto. Mae gen i fylbiau ynof a buan y tyfant yn flodau ifanc. Mae rhai pethau yn cuddio o hyd ond dyna yw bywyd. Rhaid i mi dderbyn hynny.

Diolch byth i mi gael ail gyfle i wneud yr ardd yn gyflawn, yn daclus yn hytrach na gwyllt. Bob diwrnod mae rhai yn dioddef, giatiau yn cau arnynt, yn eu cloi mewn creulondeb. 'Dw i'n lwcus, agor wnaeth y giatiau hynny i mi. Mae caeau gwastad yn llawn o ryfeddodau newydd, annisgwyl ac er eu bod yn wahanol rwyf am barhau i gerdded ar eu hyd. Efallai fydd yna giât yn agor yfory, efallai ddim, pwy a wŷr? Ond erbyn hyn, dysgais y byddaf yn barod i wynebu unrhyw beth bynnag a ddaw.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248-372948
williamshy@parliament.uk

**Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun**



Y SAMARIAID
(01248) 674985

CHWILOTA

BYRHOEDLEDD ADEILADAU



Yn ystod y mis diwethaf cyhoeddwyd adroddiad ar hirhoedledd trigolion y wlad hon, a'r ffaith ei bod yn debygol y byddai un o bob pump ohonom yn byw i gyrraedd y cant oed. Cysidwrch faint o newidiadau a wêl y bobl rheini o fewn eu hoes: faint o sefydliadau ac achosion fydd wedi eu geni ac wedi darfog yn ystod y can mlynedd. Ond yn fwy arwyddocaol, faint o adeiladau fydd wedi diflannu o fewn eu hoes. Y mae'r nifer yn rhyfeddol o ystyried ein bro ni yn unig.

Mae dwy genhedlaeth yn fyw o fewn y fro heddiw nad ydynt yn cofio Chwarel Dinorwig ar agor. A gwelodd y genhedlaeth hyn ddwy reilffordd yn cau - a rhyw ganrif ar y mwyaf fu'r rheini ar agor. Yn ystod cwta ddwy ganrif bodolaeth y chwarel, diflannodd nifer o dai a mân ffermydd dan domenni rwbél. Bellach, diflannodd rhai o'r tomenni rheini wrth iddynt gael eu tirlunio. Ac nid olion chwarelyddol yn unig a ddiflannodd. Aeth diwydiannau eraill i ddifancoll.

Doedd adeiladau gwaith copr Nant Peris ddim hyd yn oed yn atgof i'r genhedlaeth hyn, ar wahân efallai i Offis Gocyn. Yn yr un modd, olion yn unig sydd ar lethrau'r Wyddfa o'r tyllu fu yno am gopr. Ac aeth adeiladau gwaith haearn Betws Garmon a'r cyfan o'r 'aerial ropeway' dros ystlys Moel Eilio yn angof. Yn yr un modd, oes rhywrai'n fyw heddiw sy'n cofio mastiau Marconi ar y Cefn Du?

Diflannodd cyfran helaeth o fclinau dŵr afon Saint: mae ambell un wedi ei haddasu at ddefnydd arall ac mae adfeilion rhai o'r lleill yn mygu dan dyfiant, ond mae'r gweddill wedi hen fynd.

Yn ystod yr hanner canrif diwethaf, mae'n debyg mai capeli yw'r adeiladau mwyaf cyffredin i ddiflannu. Chwalwyd capeli yn y Waunfawr, yn Seion, yn Llanrug, yng Nghlwt y Bont ac yn Llanberis.

Does dim un plentyn oedran cynradd o fewn y fro yn cofio hen ysgol Brynrefail, oherwydd ym mlwyddyn ei chanmlwyddiant, fe'i chwalwyd. Y mae'n dychryn rhywun o feddwl fod yr ysgol 'newydd' yn Llanrug yn prysur dynnu at oed pensiwn!

Rai blynyddoedd yn ôl roedd Amgueddfa Sain Ffagan yn gwneud apêl am garej i'w hailadeiladu ar eu safle. Cysidwrch sawl garej o fewn y fro sydd, nid yn unig wedi cau, ond wedi eu dymchwil. Mae dwy o fewn daucanllath ar y briffordd yn Llanrug.

Mae'r unig ddwy sinema a fu yn y fro hefyd wedi eu dymchwil, ac y mae sawl ffatri hefyd wedi mynd ar chwâl. Diflannodd nifer helaeth o siopau, a hynny bron ym mhob un o bentrefi'r fro. Ac y mae ceisio rhestru'r holl dai a aeth ar ddifancoll bron yn amhosibl.

Does ond gobeithio fod cofnodion am yr holl adeiladau hyn ar gadw, a'r un mor bwysig, fod lluniau ohonynt wedi eu diogelu.

Bardd o Ddinorwig

Daeth ymateb yn syth ynglŷn â Thomas Jones Parry, a rhoi iddo ei entw llawn. Margaret Roberts o Gaernarfon anfonodd y wybodaeth, a diolch iddi am ymateb mor sydyn. Roedd y bardd o Ddinorwig yn gefnder i'w thaid, John Closs Parry o'r Fachwen, ac englynion coffa am nain Margaret yw'r rhai a gyhoeddwyd yn y rhifyn diwethaf o'r 'Eco'. Roedd Ellen

Roberts, Penybryn, Fachwen, yn fam i wyth o blant, gan gynnwys dau o feibion a fu'n gigyddion yn yr ardal, sef Ioan (tad Margaret) a Tom (oedd yn byw yn siop Fachwen). Y plant eraill oedd Emrys, Tan y Fron, Dinorwig; Elfed o Ffrwd Goch a Maggie ac Alun, Bryn Madog, Brynrefail. Alun yw'r unig un sydd ar ôl ac, yn ôl Margaret, roedd yn falch iawn o gael clywed yr englynion coffa yn cael eu hadrodd iddo.

Mae wyres i T. Jones Parry yn byw yn Llanfairfechan, ac anfonodd Marion Blythin (Deiniolen gynt) gryn dipyn o wybodaeth am y bardd. Fe'i ganed yn 1870, yn fab i Mary Closs a William Parry. Mae eu carreg fedd ym mynwent Llandinorwig, ac englyn o waith y bardd ar y carreg er cof am ei fam:

Mud orwedd mae mam dirion

- yn y bedd

Hwn, o boen trafferthion;

Mewn gofal a serch calon

Yr hyn oedd dda rannodd hon.

Tyfodd carwriaeth rhwng T. Jones Parry ac Elizabeth Ellis, Siop Assheton House, Ebenezer. Aeth Leusa (fel y'i gelwid) i weithio i Lundain, ac oddi yno, anfonodd lun ohoni ei hun yn ôl i'w chariad. Cyfansoddodd yntau yr englyn hwn ar dderbyn y llun:

O'r braidd, fy addfwynaf fun

- na synnaf

At swynion dy ddarlun;

A holaf uwchben fy eilun;

Ydyw dy law gyda dy lun?

Fe'u priodwyd yng Nghapel Cefn y Waen yn 1896 a symud i fyw i Dan y Bryn, Llidiart y Clo, Dinorwig.

Ym meddiant y teulu mae llun o englynion cyfarch a choffa a ysgrifennodd T. Jones Parry, ynghyd â dwy gadair eisteddfodol a enillodd. Daeth y gyntaf o eisteddfod Cefn y Waen yn 1900 a'r llall o eisteddfod Trelawnyd yn 1903. Mae'r llun (a dderbyniwyd gyda diolch gan Dr Gwennan Llwyd, Caerdydd; gor-or-wyres i T. Jones Parry)



yn ei ddangos gyda chadair Trelawnyd.

Dysgodd lawfer Pitman yn Gymraeg er mwyn gallu cofnodi pregethau a chofnodion cyfarfodydd llenyddol. Roedd yn flaenor ac ysgrifennydd yr eglwys yng Nghapel Dinorwig a hefyd yn lywodraethwr yr ysgol yno.

Mae gan Marion Blythin lythyr yn llawysgrif Alafon a anfonwyd at ei thaid yn ei longyfarch ar ennill cadair Trelawnyd ac yn ei annog i barhau â'i waith barddonol. Ond, roedd magu chwech o blant ynghyd â'i ddyletswyddau yn y chwarel, y capel a'r ysgol, yn mynd â llawer o'i amser. Fodd bynnag, parhaodd i gyfansoddi degau o englynion i gofnodi penblwyddi, llwyddiannau a choffâd hyd ei farwolaeth yn 1934.

Cyhoeddwyd erthygl goffa iddo yn y *Goleuad* yn 1934 dan y teitl 'Chwarelwr Diwylliedig'. Cyfeirir ato fel gŵr hynod a oedd yn hynod ffyddlon i gyfarfodydd a phwyllgorau ei enwad. Roedd yn cerdded yn aml i gyfarfodydd a phwyllgorau yn Llanberis, Llanrug a Brynrefail, a hynny wedi diwrnod caled o waith yn garet Abyssinia yn Chwarel Dinorwig.

Cynhaliwyd cystadleuaeth cyfansoddi englyn coffa iddo yn Eisteddfod Dinorwig yn 1934, a Morris D. Jones o Lanrug oedd yn fuddugol gyda'r ddau englyn canlynol:

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:


(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus.
Selsig cartref

Cigodd parod i'w bwyta
Arhebbion ar gyfer y rhewgist

MVNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!



GWYNANT PIERCE

Gynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensws ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0569) 899901



J.M. JONES a'i Feibion LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith

01286 672898

Cartref

01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

*Dan hiraeth mae Dinorwig
- am ei bardd
Llwm ei byd siomedig;
Gem oedd ei drem yn ei drig,
Bu'n addas a bonheddig.*

*Oes o hau roes i Seion
- yn dawel
A diwyd bu'n ffyddlon;
Cyfaill swil yr encilion
Arwr hyf ar lwybrau'r Iôn.*

Llawer o ddiolch i Margaret a Marion am gysylltu mor sydyn gyda gwybodaeth mor drylwyr. O na bai ymateb mor llawn i ymholiadau eraill y golofn! Morris D. Jones oedd awdur yr englynion coffa, a chawn fwy o'i hanes yn y rhifyn nesaf.

Christine Keeler

Na, doedd neb yn cofio'r achlysur pan laniodd hofrennydd (honedig) ger Gallt y Foel yn ystod y 1960'au; ond roedd Marion Blythin yn gallu ychwanegu mymryn at y stori drwy ddweud fod gan Christine Keeler dŷ yn Neganwy ar un cyfnod.

Bardd o Benisa'rwaen

Diolch i Alwyn Jones, Racca am gysylltu ynglŷn â Thomas Armstrong, Ty'n Pwll, Penisa'rwaen. Dyma'r bardd a ysgrifennodd y penillion coffa. Bydd angen dilyn y trywydd a osodwyd gan Alwyn cyn medru sgwennu mwy o'i hanes.

Gaeaf 1890-91

Pan gollodd Griffith John Pritchard ei fywyd ar yr Wyddfa ym mis Mawrth 1891, y syndod yw fod unrhyw un wedi mentro i'r fath le o gwbl, oherwydd roedd gaeaf 1890-91 yn un o'r rhai gwacthaf a gafwyd ers blyneddau. Duncan Brown fu mor garedig â chysylltu yn nodi'r ffaith hon. Cafwyd saith wythnos o rew yn arwain at fis Chwefror sych ryfeddol. Yna daeth stormydd eira yn ôl ym Mawrth, a hynny gyda gwyntoedd cryfion oedd yn peri lluwchfeydd anferthol. Roedd sawl enghraifft o drenau wedi eu dal mewn lluwchfeydd a theithwyr druan yn rhynnu a llwgu am oriau tra'n disgwyl am ryddhad.

Gallwch ddyhmygu felly

beth oedd yr amgylchiadau ar gopa'r Wyddfa. Ond mae'n amlwg fod rhywrai yn aros ar y copa bryd hynny, a Griffith wedi danfon bwyd iddynt. Yna gwrthod lloches a cheisio cyrraedd yn ôl i Lanberis. Y syndod yw ei bod yn fis Mehefin ar y corff yn cael ei ddarganfod.

A dyna'r cyfan am y tro: erthygl gyntaf ail ddegawd y mileniwm! Mae amser yn hedfan. Os oes unrhyw un â sylw ynglŷn â chynnwys y golofn neu gydag ymholiad neu wybodaeth am unrhyw agwedd o hanes bro'r 'Eco' yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: 01286 673515).

Cyfieithu Cymunedol

Ers sefydlu Cyfieithu Cymunedol Conwy yn Llanrwst yn 2005 mae'r cwmni wedi mynd o nerth i nerth.

Mae hyn oherwydd ein bod wedi agor marchnad newydd - cyfieithu i fudiadau cymunedol ac elusennol, a hynny am bris y medrant ei fforddio. Rydym hefyd yn cynnal cyrsiau cyfieithu, er mwyn hyfforddi pobl i fod yn gyfieithwyr yn eu cymunedau, ac er mwyn i fudiadau allu cynnig gwasanaeth ddwyieithog drostyn nhw eu hunain.

Y gobaith yn awr yw cynnig gwasanaeth o'r fath i Wynedd.

Os ydych chi'n glere cyngor plwy, yn gadeirydd grŵp cymunedol neu yn gweithio i gymdeithas neu fudiad elusennol / dim er elw, beth am gysylltu â ni? Gallwn gyfieithu pob math o waith, o wefannau i bosteri. Cynigiwn bris o £30 y fil o eiriau i sefydliadau cymunedol, a £45 y fil i gyrff neu gymdeithasau elusennol cenedlaethol/rhanbarthol. Bydd gostyngiad pellach am gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg!

Gallwn hefyd wneud gwaith

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

LLONGYFARCHIADAU i Gavin Foulkes, 12 Dôl Afon, a Kerry Lloyd Jones, 13 Dôl Afon, ar achlysur dathlu eu pen-blwydd yn 21 oed yn ddiweddar.

ADREF O'R YSBYTY. Dymunwn wellhad buan i Mrs Megan Olwen Jones, 21 Dôl Afon, ar ôl ei thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac sydd ar hyn o bryd yng nghartref ei merch yn Neiniolen. Hefyd i Mrs Hilda Orritt, Moranedd, sydd wedi derbyn triniaeth i'w phen-glin yn Ysbyty Abergele. CAPEL Y TABERNACL.

Bu rhaid gohirio gwasanaeth dydd Sul cyn y Nadolig oherwydd y tywydd garw ond buom yn ffodus iawn ar nos Iau, 16 Rhagfyr, gan i blant Ysgol Cwm y Glo ddod yma i gynnal eu Cyngerdd Nadolig. Cawsom noson Nadoligaidd arbennig gyda'r plant yn canu carolau, parti recorders, unawdau a

phartion taro arbennig ac unigryw. Diolch unwaith eto i'r prifathro, athrawesau ac yn arbennig, i'r plant am eu gwaith clodwiw. Diolch hefyd i'r rhai fu'n cynorthwyo gyda'r plant.

Yn ystod y misoedd diwethaf bu Mr Dafydd Price yn atgyweirio'r cyntedd. Diolch iddo unwaith eto am ei barodrwydd i ymgymryd â'r gwaith. Diolch hefyd i'r mamau am lanhau'r capel ar ôl y cyngerdd.

NEWID CARTREF. Dymunwn bob hapusrwydd i Mrs Marjorie Roberts, Bod Gwilym sydd, ar ddiwedd y mis, yn symud i fyw o Cwm i'w hen gartref, Tŷ Newydd ym Methel. Bydd colled enfawr i ni yn Cwm ar ei hôl gan iddi gymryd diddordeb a chefnogi holl weithgareddau'r pentref ers iddi ymgartrefu yma. Os bydd Cwm ar ei golled, yn sicr bydd Bethel ar ei ennill. Pob dymuniad da i ti, Marjorie.

masnachol am bris cystadleuol.

Ein gobaith hefyd ydi gallu cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. O'r herwydd rydym yn edrych am gyfieithwr ar y pryd llawrydd. Os oes genych chi brofiad yn y maes hwn ac awydd cydweithio efo ni, beth am

gysylltu am sgwrs? Mae ein manylion isod:

Ffôn: 01492 642 796

Ebost:

cyfieithucymunedolconwy@hotmail.co.uk

Gwefan:

www.cyfieithuconwy.org

Eira 2010

Mae rhai sydd yn cofio 'pedwar deg saith' r eira dychrynlyd - cynefin dan glo, y llynnoedd yn sglefr am wythnosau maith pob gwaith mewn cyffion - cymortha drwy'r fro... Mae mwy sydd yn cofio 'chwe deg a thri' ardal yn stond - fel gaeafau fu! Y misoedd fel oergell - a dim ond cri hen gigfran Fach-Wen fel rhyw grocbren du ...

Nawr a rhif y flwyddyn yn 'ugain deg' daeth y blanced wen ddisymwth fel nos, gorchuddiwyd gwlad fel cerdyn Dolig teg a'r mentrus yn ffwdrus rhwng ffordd a ffos ... Wedi cyfarch gwell, a chael cwyno peth â'r sgwrs i gymharu stremp y tri heth!

NORMAN CLOSS



**ORIEL
CWM
Cwm y Glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhegymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

**Gwasanaethau
Garddio
Gorwel**

01286 650761

07773 020424

Planu Llwyni

Planhigion a Llysiau

Tori Gwair a Gwrychoedd

Tocio Palu a Chwynu

Tacluso a Cofal Tymhorol

Cwella Safon Tir

Glanhau Llwybrau, Tywarchu

CWBL YSWIRIEDIG

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

YSGOL BRYNREFAIL



TÎM HOCI GOGLEDD CYMRU

Carwn fel Ysgol longyfarch Gwenno Gibbard, merch sydd yn hanu o bentref Llanrug, ar ei llwyddiant yn cael ei dewis i gynrychioli Gogledd Cymru, dan 18, ar y maes hoci. Ym mis Medi bu treialon hoci ar gaeau Brynrefail ar gyfer cael lle yn nhîm hoci Gwynedd ac fe lwyddodd Gwenno i gael ei lle yn nhîm Gwynedd.

Ymlaen â hithau a'i thîm i

dwrnamaint Gogledd Cymru i chwarae yn erbyn timau yn cynrychioli siroedd Clwyd a Powys a bu llwyddiant a dyrchafiad eto i gynrychioli Gogledd Cymru.

Ar ddydd Sadwrn 15fed o Ionawr 2011 bydd Gwenno a thîm hoci Gogledd Cymru yn teithio i Abertawe i gystadlu mewn twrnamaint yn erbyn timau o Dde Orllewin Cymru a De Ddwyrain Cymru.

Geneth Brynrefs - da de



SBOTOLAU AR ELINOR LAMPARD

Y mae Elinor, sydd ym mlwyddyn 9, wedi bod ar gefn ceffylau hyd ei dyddiau cynnar ac fe garlamodd ein gohebydd i gael gair gyda hi.

Pryd wnest di ddechrau reidio ceffylau?

Wel, dwi'm yn cofio, ond mae fy rhieni yn dweud wrthyf i mi ddechrau yn flwydd oed. Bûm yn neidio ar gefn ceffyl yn chwech oed.

A pryd ddaeth y llwyddiant gyntaf?

Pan oeddwn yn wyth oed ac yn reidio ceffyl gwinau, sef Rosa, 13.1 llaw o uchder, enillais gwpan 'Working Hunter Group' Ac erbyn hyn?

Wel, dwi'n aelod o'r 'Pony Club' ac yn rhan o dim Gwynedd yng Nghynghrair y Gaeaf yn cystadlu yn erbyn siroedd eraill ac er bodgennym bum ceffyl dwi'n canolbwyntio ar ddau sef

Sunny, ceffyl gwinau sydd yn 13.3 llaw o uchder a Milo, ceffyl brown tywyll 14.2 llaw o uchder. Gyda'r ddau yma enillais y gystadleuaeth 'Topscore' a thrwy hynny gymryd rhan yn y 'Royal Windsor Horse Show'.

Wow! Mae hynny'n gystadleuaeth adnabyddus dros ben. Sut wyt ti'n cael lle ar gyfer y tlysau ti'n ennill?

Wel, mae gennyf lwythi o roscutis adref ond fcl arfer mae'r cwpanau yn gorfod mynd yn ôl wedi i chi gadw nhw am flwyddyn.

A'th ddyfodol?

Wel ar hyn o bryd mwy o gystadlaethau yn enwedig neidio yn Lerpwl a Gogledd Ddwyrain Lloegr ond byddaf yn troi rhywbryd at 'Eventing' sy'n gofyn am reidio ceffylau traws gwlad a neidio ceffylau.



Patagonia

Ar ddechrau'r flwyddyn newydd fe ddaeth newyddion gwych i Ysgol Brynrefail. Fe ddewiswyd (o'r chwith i'r dde), Manon Elwyn, Gethin Griffiths a Bronwen Price gan Urdd Gobaith Cymru yn rhan o griw fydd yn teithio i Batagonia, ar ran yr Urdd, i gyflawni gwaith gwirfoddol yno. Mae'r tri yn hanu o bentref Bethel ac yr ydym yn sicr y bydd trigolion y pentref yn falch iawn ohonynt fel yr ydym ni yn Ysgol Brynrefail.

Bydd y tri yn teithio ym mis Hydref 2011 i gyflawni

pythefnos o waith gwirfoddol. Fel Ysgol, yr ydym yn ymestyn ein llongyfarchiadau calonnog i'r tri ohonynt.

OND!!! Mae'r tri yn gorfod codi £2000 yr un tuag at eu treuliau sydd yn fenter anferthol. Fe fyddwn ni fel Ysgol yn gwneud ein gorau i'w helpu ond rydym yn gofyn hefyd yn garedig, am eich cymorth chi ddarllenwyr yr Eco. Yn unigolion, cymunedau, cymdeithasau a busnesau, fe allwch gynorthwyo drwy yrru cyfraniadau i'r Ysgol. Fe ellir cyfrannu arian parod neu sieciau yn daladwy i Ysgol Brynrefail.



Cwis pop Radio Cymru

Ysgol Brynrefail ddaeth i'r brig eleni yn y Cwis Pop cenedlaethol cafodd ei gynnal gan Radio Cymru ar eu rhaglen C2. Fe gurwyd y rownd gyntaf yn erbyn Ysgol David Hughes, Porthaethwy, yr ail yn erbyn Ysgol y Preseli, Crymych a'r drydedd yn erbyn Ysgol y Berwyn, Y Bala, cyn trechu Ysgol Botwnnog yn y rownd gyn-derfynol a mynd ymlaen i wynebu Ysgol Tryfan, Bangor yn y rownd derfynol.

Ennill fu'r hanes eto yn y rownd derfynol a'r criw o Lanrug aeth â hi, a hynny o un pwynt yn unig! Mi oedd Glyn Wisc a Magi Dodd, y cyflwynwyr, yn gytûn mai dyma'r cwis agosa a'r gorau

iddynt fod yn rhan ohono erioed.

SMALA
www.smala.net

Gwefan
Posteri
Taflenni
Logo
Cardiau busnes
Llyfrau archebion
Penllythyr
Sticeri . Labeli
Argraffu o bob math



01286 660 364
07887 654 251



Dros tymor y Nadolig bu'r Chweched Dosbarth wrthi'n paratoi a threfnu parti blynyddol ar gyfer disgyblion Ysgol Pendalar. Aeth y myfyrwyr ati'n ddyfal i gasglu arian o bob pentref yn yr ardal a hael iawn fu ymateb y busnesau a'r trigolion unwaith eto eleni. Cynhaliwyd hefyd nifer o weithgareddau i godi arian megis gwerthu cacennau, spelling bee, taith gerdded nodedig, distawrwydd nodedig ac hefyd canu carolau.

Diwrnod y parti, roedd pawb o'r Chweched Dosbarth ynghlwm â'r bwrlwm, yn addurno'r neuadd, neu'n helpu Siôn Corn gyda'r holl anrhegion. Erbyn y prynhawn roedd neuadd Ysgol Pendalar yn Nadoligaidd iawn! Cafwyd gwestai hefyd i ddiddori'r plant sef Edward Morris Jones.

Ar ôl y canu a'r dawnio

roedd hi'n amser i fwynhau'r wledd. Mwynhawyd yr arlwy gan bawb, yn sicr roedd rhywbeth ar gael at ddant pawb. Wedi i bawb fwyta llond eu boliau, i orffen y prynhawn, cafwyd un ymwelydd arall o bwys, Siôn Corn, gyda llond sach o anrhegion gwerth eu cael i bob un o'r plant.

Hoffem ddiolch unwaith yn rhagor i bawb a gyfrannodd at y digwyddiad hynod bwysig yng nghalendr y flwyddyn yn Ysgol Brynrefail ac Ysgol Pendalar. Isod rhestrir enwau'r cwmnïau hael:

Llanberis: Côr Meibion Dyffryn Peris, Electric Mountain, Padarn Lake Hotel, Rheilffordd Llyn Padarn, Saffron.

Bethel: Edwina Morris, Merched Y Wawr, Swyddfa Bost Bethel.

Llanrug: Arvonnia, Clwb Pêldroed Llanrug, Elaine's, Tegfan,

Ty'n Rhos, Wavell, Ysgol Gynradd Llanrug.

Cwm Y Glo: Ysgol Gynradd Cwm Y Glo.

Hefyd: Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru, Gelli Gyffwrdd, Hwylfan, Oren, Owen Glyn.

Hoffem hefyd ddiolch i Morrisons Caernarfon am roi

caniatad iddym ganu carolau yno ac i bawb a gyfrannodd i'r potiau arian ac i'r busnesau canlynol am eu cadw:


Academy Karate John Lynn yn Llanberis, Bull Deiniolen, Caffi Caban, Gorsaf lenwi Texaco Cwm y Glo, Londis Llanrug, London Garage, Swyddfa Bost Llanrug.

GWASANAETH CAROLAU EGLWYS PADARN



Ar nos Lun 13eg Rhagfyr 2010 fe gynhaliwyd Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Padarn, Llanberis gyda'r eglwys dan ei sang o rieni a ffrindiau. O dan drefniant Mrs Anwen Edwards a Mrs Lowri Roberts bu doniau disgyblion Ysgol Brynrefail yn disgleirio, yn unigolion, yn ddeuawdau, yn gorau, yn offerynwyr ac yn gerddorfa a'r oll yn cyfrannu tuag at greu naws unigryw'r Nadolig.

Bu casgliad yn ystod y gwasanaeth a'r holl arian a gasglwyd eleni yn mynd i'r elusen 'Hosbis yn y Cartref, Gwynedd' sydd yn darparu gwasanaeth ychwanegol, at y rhai sy'n barod yn y gymuned, ar gyfer cleifion sy'n dioddef o ganser neu unrhyw salwch sy'n bygwth eu bywyd. Eu hamcanion yw darparu awyrgylch cartrefol a chyfeillgar i'r cleifion ac y mae codi arian yn hanfodol er mwyn cynnal eu gwasanaethau. Diolch i bawb a gefnogodd y gwasanaeth a'r casgliad.



E-BOST YR ECO!

ecorwyddfa@gmail.com

Gallwch anfon eich lluniau a'ch storïau yma o hyn ymlaen.

LLWYDDIANT GYMNASTEG EMMA ROBERTS



Ar y 3ydd o Ragfyr 2010 bu 30 o ddisgyblion yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Gymnasteg Eryri yng Nghanolfan Chwaraeon, Caernarfon. Wedi wythnosau o ymarfer caled ar gyfer y diwrnod bu cystadleuaeth ar y diwrnod o safon uchel a'r ymgeiswyr oll ar eu gorau.

Ar ddiwedd y gystadleuaeth cafodd Emma Roberts, blwyddyn 9, ei hun yn yr ail safon yn ddiolch i'w chloed nid yn unig iddi hi ei hunan a'i theulu ond i Ysgol Brynrefail hefyd.

Llongyfarchiadau calonnog Emma, ar dy lwyddiant.

Geneth Brynrefs - da 'de!

BWRDD YR IAITH
CYMRAEG-WELSH
LANGUAGE BOARD

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

**ECO'R
WYDDFA**

Hoffech chi hysbysu
eich cwmni neu
ddigwyddiad yn yr Eco?

Cysylltwch ag:

Eifion Roberts,

Llanberis (070740)

UN FUNUD FACH

Y LLIAIN BWRDD

Debyg iawn bod ambell un ohonoch chi, fel finnau, wedi derbyn yn ddiweddar e-bost yn adrodd stori'r lliain bwrdd. Mae'n hen stori, sy'n cael ei phriodoli i weinidog o'r enw Rob Reid. Ar drothwy'r Nadolig, roedd gweinidog newydd wedi cuddio twll yn wal ei gapel yn Efrog Newydd â lliain bwrdd hardd a brynnod mewn ffair sborion. Daeth gwraig ddieithr i'r capel. Gwelodd y lliain a sylweddoli mai hi oedd wedi ei wneud, yn ei chartref yn Awstria, cyn yr Ail Ryfel Byd. Roedd wedi gorfod ffoi yn fuan wedyn i'r America, gan adael ei gŵr ar ôl. Doedd hi ddim wedi ei weld ers 35 o flynyddoedd. Mynnodd y wraig fod y gweinidog yn cadw'r lliain yn y capel, er iddo'i gynnig iddi cyn ei danfon adref i ran arall o'r ddinas.

Dridiau'n ddiweddarach, ar derfyn y gwasanaeth Noswyl Nadolig, gofynnodd hen ŵr i'r gweinidog lle cawsai'r lliain bwrdd. Roedd wedi ei nabod fel lliain a wnaed gan ei wraig flynyddoedd cyn hynny, yn eu cartref yn Awstria. Roedd ei wraig, meddai, wedi ffoi ar ddechrau'r Rhyfel ac yntau wedi ei garcharu, a doedd o ddim wedi ei gweld ers 35 o flynyddoedd. Heb egluro pam, aeth y gweinidog â'r dyn i'r tŷ y danfonodd y wraig iddo dridiau'n gynharach. A dyna, meddai'r gweinidog, yr aduniad mwyaf rhyfeddol a welodd erioed.

Does wybod os yw'n stori wir ai peidio. Honnir mai dyna ydyw beth bynnag, ac fe'i defnyddiwyd dros y blynyddoedd i ddangos mor rhyfeddol yw rhagluniaeth Duw. Ni all pob Cristion adrodd stori mor ddramatig, ac eto'r un yw eu tystiolaeth i ofal a daioni Duw, a'i ffyddlondeb iddynt trwy bob math o amgylchiadau. Os yw'r stori arbennig hon yn wir, ni allwn ond dychmygu'r llawenydd a'r rhyfeddod a brofodd y gŵr a'r wraig wedi'r holl flynyddoedd o fod ar wahan. 'Trwy ddirlgel ffyrdd' yn wir mae'r uchel lŵr yn dwyn ei waith i ben'.

Sawl gwaith ydym ninnau wedi cydnabod hynny mewn sefyllfaoedd a chyfnodau gwahanol? Sawl gwaith ydym wedi diolch am ragluniaeth ddoeth pan drodd amgylchiadau o'n plaid, a ninnau'n gweld yn glir ofal a thrugaredd Duw? Mwy anodd, rhaid cyfaddef, yw cydnabod daioni Duw a doethineb ei ragluniaeth yng nghanol problemau a dioddefiadau o bob math. Ac eto, mae ffydd yn ein

sicrhau mai'r un yw'r daioni hwnnw, a'r un yw gofal a chariad Duw pan fo'r storm yn curo a'r byd yn chwalu o'n cwrmpas. Yn awr y golled a'r brofedigaeth, fel yn awr y gorfoledd a'r bwrlwm, ffydd sy'n ein galluogi i ddweud, 'rhagluniaeth fawr y nef, o'm plaid ei holl olwynion try'.

JOHN PRITCHARD

Cyngor Cymuned Llanrug

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 16eg o Dachwedd:

- Penderfynwyd ar steil ar gyfer logo i'r Cyngor.

- Penderfynwyd gofyn i Swyddog Coed Cyngor Gwynedd ddod i'r Cyngor er mwyn trafod y posibiladau o warchod coed sydd yn y gymuned.

Doedd dim gwrthwynebiad i'r Ceisiadau Cynllunio canlynol:

- Newid defnydd adeilad a defnyddir fel llety gwyliau i ffurfio anecs i ysgubor fawr - Ysgubor Fach, Tyddyn Cae, Pontrug.

- Codi estyniad bychan ar gefn yr eiddo presennol - Glan Bogelyn, Cwm y Glo.

- Trosi ac ymestyn adeilad amaethyddol traddodiadol i ffurfio man parcio a llecyn allanol atodol - Prysgol, Caeathro.

- Penderfynwyd trafod cais grant Cynllun Efe yng nghyfarfod Rhagfyr.

- Talu costau Canolfan Cwm y Glo yn unol â'r drefn arferol.

- Cadarnhawyd na fydd penderfyniad yn cael ei wneud am y fainc yn Nhanycoed nes bydd BT yn delio gyda'r difrod i'r ciosg.

- Penderfynwyd hysbysu Cyngor Gwynedd bod gorlifiad dŵr budr wedi bod yn y tai newydd yn Tân y Coed ac anfon copi o'r llythyr i Gymdeithas Tai Gogledd Cymru a oedd wedi adeiladu'r tai.

Deallwyd fod swyddogion Cyngor Gwynedd am ystyried rhoi llinellau melyn ar rannau o Ffordd yr Orsaf.

Mynegyd pryder nad oedd trefniadau wedi eu gwneud i godi arian ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2012. Penderfynwyd ysgrifennu at y ddau Brifathro yn mynegi'r pryder a gofyn a fyddent yn gallu trefnu cyfarfod yn mis Ionawr gan gynnwys holl fudiadau'r ardal.

Cofiwch gefnogi ein hysbysebwy

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN AR GYFER POB ACHLYSUR

- * Cig o ffermydd lleol
- * Partiön rhwng 40 a 400!
- * Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
- * Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYD CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
Gwefan: www.ydyncig.co.uk

CERIS JONES

Teglan,
Stâd Talybont

LLANRUG
677362

neu symudol
07979620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

PADARN LAKE LLANBERIS (01286) 870260



**PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD
CANOL DYDD
A GYDA'R NOS**

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig



www.ffmpegia.com

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.ffmpegia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorrffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrraeddwyd Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Y CLWB 300. Enillwyr y Clwb am fis Hydref oedd: £30: Mrs Bethan Thomas, Ty'n Llan; £20: Mr H. Jones, Rhandirmwyn; £10: Mr T.E. Jones, Penrhyn, Lôn Ddewi, Caernarfon.

Enillwyr Rhagfyr oedd: £30: Mrs R. Hughes, 15 Tref Eilian; £20: Dr Huw Roberts, Liverpool House; £10: Mr R. Edwards, Melin y Wig.

DIOLCH. Cyn y Nadolig bu'r eira a'r rhew yn rhwystr i lawer iawn ohonom allu mynd o gwmpas ein pethau, ond mae'n rhaid inni ddiolch i weithwyr y cyngor a fu'n brysur yn graeanu'r ffordd fawr a'i chadw'n agored fel y gallodd cyflenwad o nwyddau angenrheidiol gyrraedd siop y pentref yn ddyddiol inni. Bu'r postmon hefyd yn cerdded ar hyd y ffyrdd bach llithrig yn cario cyfarchion y Nadolig o dŷ i dŷ. Diolch i bawb wnaeth eu gorau inni. Roedd 'na awyrgylch gymdeithasol braf yn y pentref. **CYFARCHION Y TYMOR.** Oherwydd iddi gael ei chymryd i'r ysbyty methodd Mrs Sarah Lewis anfon cyfarchion y Nadolig a'r Flwyddyn newydd i'w thculu a'i ffrindiau. Mae'n gobeithio iddynt gael Nadolig dedwydd ac mae'n dymuno pob hapusrwydd i bawb o'i chydabod yn y flwyddyn 2011.

Yr un yw dymuniad Dic a Gwendoline Rowlands, Bryn Golau, gan i Dic gael ei gymryd i'r ysbyty hefyd.

Dymunwn bob hapusrwydd i chi i gyd yn ystod y flwyddyn 2011.

BABIS BACH NEWYDD. Llongyfarchiadau i Elfyn a Menna Griffith, Blaen y Nant, ar ddod yn daid a nain i Chloe, merch fach a anwyd i Nia a'i phartner, Darren. Maent yn byw yn Llangefni.

Ganwyd mab bychan, Dylan Geraint, i Mandy a Roger yng Nghonwy. Brawd bach i Owain, Sioned a Rhodri ac ŵyr i Mrs Barbara Griffiths, Stad Tref Eilian.

Llongyfarchiadau i Gwyneth (Ty'n Llidiart, gynt) a John ar fabwysiadu eu mab bach, Owain Ramatsela. Hefyd i John a Rhian ar ddod yn daid a nain balch unwaith eto. **PEN-BLWYDD.**

Llongyfarchiadau i Kara Jones, 2 Ael y Bryn, ar gyrraedd ei un ar hugain oed yn ddiweddar.

ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Mrs Sarah Lewis, Stad Tref Eilian; Mrs Helena Edwards, Stad Bro Hyfrydi; Mr Norman Williams, Llidiart Wen a Mr Dave Parry, Bro Waun, a dref o'r ysbyty gan ddymuno adferiad iechyd buan iddynt.

Croeso adref hefyd i Mr Arthur Ellis, wedi iddo dreulio

cyfnod yn yr ysbyty ac yng Nghartref Plas Pen Gwaith dros y Nadolig gyda Edith. Cofion cynnes atoch.

DYMUNWN wellhad buan hefyd i Nia Brown, 2 Bryn Golau, sydd wedi syrthio a thorri ei braich.

EISTEDDFOD. Bydd Eisteddfod Bentref Waunfawr yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn, 19 Chwefror yn y Ganolfan. Eisteddfod y plant i gychwyn am 12.30 (drysau yn agor am 12.00) ac Eisteddfod yr hwyr i gychwyn am 7.00 (drysau yn agor am 6.30).

Testunau ar gael yn siop y pentref ac yn Ysgol Waunfawr neu cysylltwch ag Olwen ar 650371.

Dewch yn llw i gefnogi.

OWEN WYN JONES

TORONTO yn 86 oed gynt o Graianfryn, Waunfawr Ar 18 Rhagfyr, cawsom wybod am ei farwolaeth sydyn yn yr ysbyty yn Toronto a dyma deyrnged a roddodd Dei Jones ar y rhaglen *Ar Eich Cais* ar Radio Cymru, ar ôl i'w ferch, Grace, gysylltu hefo Dei ar 26 Rhagfyr.

'Yr anerchiad cyntaf heno ein bod wedi colli un o'r gwrandawyr ffyddlon, Owen Jones, o Toronto. Byddai Owen wrth ei fodd cymaint yn clywed ei enw ar y rhaglen *Ar Eich Cais*. Fe ddaw yn well, Josie fach, a diolch i chwi fel teulu am anfon.

Er parch i'w goffadwriaeth ar y rhaglen dyma Elwyn Jones 'yr hen Lambedrog', ei ffrind oes, yn canu 'A yw fy enw i lawr'.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at ei deulu ac at Mrs Doris Roberts, Dwyros, perthynas iddo yn y Waunfawr. **CYDYMDEIMLAD.** Anfonwn cin cydymdeimlad hefyd at deulu Leslie Peters a fagwyd yn Cac Steel. Bu ei angladd ym mynwent Betws Garmon ychydig cyn y Nadolig.

NEWYDDION O'R YSGOL

Hoffai plant a staff yr ysgol ddymuno blwyddyn newydd dda i holl ddarlennwyr yr Eco. Bu'n ddiwedd tymor prysur fel arfer er gwaethaf yr eira.

Dathliadau'r Nadolig. Cafwyd Ffair Nadolig lwyddiannus iawn ar Ragfyr y 9fed. Roedd hi'n braf gweld yr ysgol yn llawn o rieni a phlant. Diolch i aelodau'r Pwyllgor Rhieni am drefnu'r noson. Cafwyd tair sioe Nadolig lwyddiannus iawn yn y Ganolfan. Diolch i'r plant a'r staff am eu gwaith clodwiw a diolch i'r rhieni hynny a fu'n helpu gyda'r goleuadau, y gwisgoedd a gwerthu raffl ac ati. Bydd DVD o'r sioe ar werth yn fuan.

Bu Anti Howela ac Anti Sylvia yn ddiwyd yn paratoi cinio Nadolig blasus ar ein cyfer ddydd Iau, Rhagfyr yr 16eg. Yn anffodus oherwydd yr eira bu'n rhaid canslo'r cyngerdd meithrin /ymweliad Siôn Corn a diwrnod pyjamas ddiwedd y tymor. Fodd bynnag fe gafwyd diwrnod arbennig ddydd Gwener, Ionawr y 7fed pan ddaeth pawb, yr athrawon a'r plant, i'r ysgol mewn pyjamas. Cafwyd pryd mewn bocs a phrynhawn i chwarae gydag anrhegion y Nadolig.

Apêl Eisteddfod yr Urdd. Mae Aelodau Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd angen cefnogaeth yr ysgol gyda'u hymgyrch 'Pres mewn Rhes'. Gofynnwn yn garedig i'r plant ddod â darnau 5c i'r ysgol bob dydd Gwener. Gobeithir casglu digon o ddarnau 5c i'w gosod o un pen Waunfawr i'r llall, a sefydlu record byd newydd yn y Guinness Book of Records.



Llongyfarchiadau a Phob Lwc. Rydym yn dymuno'n dda i Tomos Morgan o flwyddyn 6 a ddaeth yn fuddugol yng Ngala Nofio Urdd Eryri Bydd Tomos yn cynrychioli rhanbarth Eryri yn y Gystadleuaeth Derfynol yng Nghaerdydd ddiwedd y mis. Da iawn chdi Tomos a phob lwc!

Dyddiadau i'w cadw mewn cof: 1) Ddydd Llun, Ionawr yr 17eg byddwn yn cael Diwrnod Arbed Dŵr. Bydd Bethan Copeland o Fwrdd Dŵr Cymru yn cynnal gwasanaeth ysgol gyfan am 9.30am ac yna yn cynnal 2 weithdy i ddosbarthiadau yr Adran Iau. Bydd hefyd yn gwneud arolwg o ddefnydd dŵr yr ysgol.

2) Dydd Mercher Ionawr y 19eg bydd Cwmni Scottish Power yn cynnal dwy sesiwn addysgol ar ddiogelwch yn y cartref i Adran y Babanod a'r Adran Iau. Yn y prynhawn bydd y ffotograffydd yn tynnu lluniau blwyddyn 6 a blwyddyn derbyn.

3) Ddydd Mercher, Ionawr y 26ain bydd blwyddyn 5 a 6 yn ymweld â Phentre Peryglon yn Nhalacre Fflint. Canolfan yw hon sy'n addysgu'r plant am ddiogelwch personol. Gan fod yr ysgol wedi derbyn grant i dalu am gostau bws bydd yr ymweliad hwn yn rhad ac am ddim.

4) Ddydd Llun, Ionawr y 31ain, ni fydd ysgol i'r plant gan y bydd yn ddiwrnod hyfforddiant i'r athrawon.

5) Ddydd Mercher, Chwefror y 3ydd, cynhelir cyfarfod i'r Pwyllgor Rhieni am 6.00 o'r gloch ac yna bydd cyfarfod i'r Llywodraethwyr am 7.00 o'r gloch.

6) Ddydd Gwener, Chwefror y 4ydd bydd Adran y Babanod yn mynd i Ysgol Brynrefail ar gyfer sioe Carys Ofalus ar ddiogelwch y ffordd. Mwy o fanylion i ddilyn.

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

Cofiwch gefnogi ein hysbysebwy

Ar ddechrau blwyddyn fe hoffwn ofyn yn garedig i chi, ddarlennwyr yr Eco, ddod ac unrhyw newyddion yr hoffech ei roi yn y papur i mi. Diolch.

O SIAMBAR SELWYN

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd. Tydi blwyddyn yn ffluo ac erbyn hyn, wrth i chi droi i mewn i'r Siambar, mae mis cynta' 2011 wedi diflannu i'r gorffennol.

Mis Ionawr. Daw'r enw 'Ionawr' o'r enw 'Ianws', sef un o hen dduwiau Rhufeinig y dywedir fod ganddo ddau wyneb - un i edrych yn ôl a'r llall i edrych ymlaen. Un i edrych yn ôl dros y gorffennol a'r llall i edrych ymlaen i'r dyfodol. Enw da ar fis cynta'r flwyddyn ydi Ianws gan ei fod yn rhoi cyfle i bob un ohonom edrych yn ôl dros y flwyddyn a fu, ac i edrych ymlaen at y flwyddyn sydd o'n blaenau. Ia, enw da ar fis cynta'r flwyddyn ydi Ianws, January, Ionawr.

I un fel fi sydd wedi cael bonws go dda dros oed yr addewid, y duedd ydi edrych yn ôl fwy nag edrych ymlaen. Yn sicr, 'mwy sydd eisoes wedi ei dreulio nag sydd eto o fy mlaen' sy'n wir bellach yn fy achos i. A waeth i mi gyfadde ddim, mi fydda i yn cael pleser a mwynhad wrth ddwyn yn ôl atgofion o'r dyddiau a fu.

Dwi'n hynod falch i mi gadw llyfrau sgrap sy'n dilyn hynt a helynt y gwahanol ddigwyddiadau y bûm yn gysylltiedig â nhw drwy gydol fy oes. Toriadau o bapurau newydd yn cofnodi hanes y gemau pêl-droed y bûm i'n chwarae ynddyn nhw. Hanes nifer o'r eisteddfodau cynnar pan oeddwn mor wirion â llenwi'r tŷ â chadeiriau o bob lliw a siâp. Wrth gwrs, mae yma hefyd gofnod o sawl priodas a sawl angladd a oedd yn gysylltiedig â'r teulu.

Wrth edrych yn fanwl drwy y llyfrau sgrap - cofnodion eisteddfodol ydi'r mwyafrif, ac fe gedwais gofnod o bob eisteddfod y bûm yn beirniadu ynddi ledled Cymru. 442 i fod yn fanwl, a 169 ohonynt yn eisteddfodau y bûm yn

beirniadu cerddi'r gadair yn ogystal â chloriannu'r adroddwyr. Dros y blynyddoedd mi gefais y ffrainc o gadeirio 10 o feirdd (rhaf ohonynt fwy nac unwaith) a ddaeth yn ddiweddarach i wisgo coron, neu i eistedd yng nghadair, neu i wisgo medal ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol. O ydw, dwi'n hynod falch i mi gadw llyfrau sgrap dros y blynyddoedd.

O sôn am 'Ianws' a'r eisteddfod, mae yna gysylltiad diddorol rhwng y ddau. Yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1979, y bardd a ddaeth i'r brig yng nghystadlaeth y Goron, oedd un yn dwyn y ffugenw 'Ianws'. Pan agorwyd yr amlen, canfyddwyd bod dau enw yn hawlio'r cerddi buddugol, sef T. James Jones a Jon Dressel. Yr hyn a ddigwyddodd oedd fod Jon Dressel wedi cyfansoddi y cerddi yn Saesneg a bod T. James Jones wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg ar gyfer cystadlaeth y Goron. Roedd hyn, wrth gwrs, yn torri amodau'r gystadlaeth. Dim ond gwaith unigolyn y gellid ei dderbyn ar gyfer y gystadlaeth, a dim ond un goron oedd ar gyfer y buddugol. Cofiwch, roedd Jon a Jim wedi bod yn berffaith onest ynglŷn â'r cyfan.

Beth fu'r canlyniad? Cawsant eu diarddel o'r gystadlaeth ond, yn ffodus, roedd 'na fardd arall a oedd yn gwbwl deilwng o'r anrhydedd a'r bardd hwnnw oedd y Parchedig Meirion Evans, a chytunwyd i'w goroni ac fe ddaeth Meirion yn Archdderwydd Cymru yn ddiweddarach.

Ac, wrth gwrs, fe aeth T.J.J. ymlaen i ennill dwy Goron genedlaethol yn ogystal â'r Gadair yn 2007, pan gefais y ffrainc o'i gadeirio yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fflint. Ei ffugenw o yn Fflint gyda llaw oedd, na, nid 'Ianws' ond 'Un o

ddeuawd' a oedd yn ein atgoffa o helynt Prifwyl Caernarfon 1979.

Braint arall i mi oedd cael gorseddu Jim Parc Nest yn

Archdderwydd Cymru yn y Seremoni Cyhoeddi yn Wrecsam llynedd, yr ail o'r brodyr i gael yr anrhydedd.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

GENEDIGAETH

Llongyfarchiadau i Amy Lambert, Glandŵr, ar enedigaeth ei merch fach, Erin Angharad, ar Ragfyr 23ain. Mae'n cael croeso mawr gan ei nain, Bethan, a'i hen nain, Jennie Angharad Roberts.

CYDYMDEIMLAD Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Gwyneth Evans Ty'n Buarth yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, Mary Catherine Thomas o Lanberis ar Ionawr 1leg.

YR EGLWYS

BRESBYTERAIDD

DATHLU'R NADOLIG Er gwaethaf y tywydd gaeafol garw, buom yn ffodus o allu cynnal ein gwasanaeth Nadolig blynyddol bnawn Sul Rhagfyr 19eg. Gwnaed defnydd eleni o wasanaeth oedd wedi ei baratoi gan Gymorth Cristnogol - "Ymhell o gartref adeg y Nadolig" wedi ei drefnu gan Gwyn Hefin Jones. Ef a'n cyflwynodd i'r thema a dangos fideo byr o amgylchiadau teulu oedd yn ffoaduriaid wedi croesi'r y ffin o Borneo i wlad Thai. Adroddwyd stori'r teulu gan Ifanwy Jones. Rhoddwyd yr anerchiad seiliedig ar destunau gyda chysylltiad arbennig â'r geni ym Methlem - Ymhell o Gartref, Teithio o Gartref a Lle gwna Duw ei Gartref yn cynnwys darlenniadau detholedig o'r Ysgrhythur gan Lowri Roberts Williams gyda dilyniant gan Jennie Angharad Roberts. Arweiniwyd mewn gweddi gan Dafydd G. Ellis. Ymunodd y plant a'r oedolion mewn nifer o garolau yn ystod y gwasanaeth a gwnaed casgliad

ar y terfyn tuag at waith Cymorth Cristnogol. Wedi'r oedfa mwynhaodd pawb bryd Nadoligaidd wedi ei baratoi ym mwyty Caban. Roeddym yn falch o groesawu Dwynwen Williams a Sion o Dros yr Afon i'n plith, y teulu erbyn hyn wedi dychwelyd o Lanrug i'w cynefin ym Mrynrefail.

OEDFAON CHWEFROR

6 am 5.30: Parch Trefor Jones, Caernarfon

13 am 4.00 Parch Iorwerth Jones Owen, Caernarfon

20 am 5.30 Parch Harri Parri, Caernarfon

Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

27 am 2.00 Mr Clifford Owen, Llanfairfechan

SEFYDLIAD Y MERCHED. Nos Iau, Ionawr 20fed, daeth yr aelodau ynghyd i'r Caban.

Y siaradwr gwadd oedd Gareth Lloyd Jones. Bu'n sôn am ei yrfa fel cartwynydd 'Y Cymro' ac am nifer y gweithiau a gomisiynwyd iddo. Soniodd am yr anhwylder iechedd a ddaeth i'w ran ac fel y bu hynny yn sbardun iddo ymddiddori mewn cerdded.

Canlyniad hyn oedd y diddordeb amlwg gafodd i ddilyn y ffordd Rufeinig o Gaernarfon i Gaer pryd y llwyddodd i wneud y daith mewn tridiau. Yn dilyn hyn comisiynwyd ef i greu taflenni Llwybrau Bro Llanddeiniolen, Llanrug a Llyn Padarn.

Dangosodd luniau o deithiau drwy'r fro ynghyd a rhai a dynnwyd yn nhywyllwch nos yn arbennig iawn.

Mwynhaodd pawb noson hwyliog a diddorol dros ben.

Harddwch eich cartref gyda



FFENESTRI CELTIC WINDOWS

FFENESTRI - DRYSAU - CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Buonws teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

12 Llys Gastan, Parc
Menai, Bangor LL57 4FH.



01248 679093



ARVONIA



- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud; archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvonias.co.uk • Gwefan: www.arvonias.co.uk

LLANRUG

Eryl Roberts. 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

PLAID CYMRU

Cynhelir Cinio Gŵyl Ddewi nos Wener, Chwefror 25, yng Ngwesty Llyn Padarn (Padarn Lake), Llanberis. Y gŵr gwadd yw Llŷr Huws Gruffydd, sydd ar ben rhestr ymgeiswyr Plaid Cymru yn rhanbarth y Gogledd ar gyfer Etholiad y Cynulliad ym mis Mai eleni. Mae Llŷr yn fab i'r enwog Peter Hughes Griffith, a byddwn yn siŵr o gael noson hwyliog yn ei gwmni. Mae croeso cynnes i bawb i'r cinio. Y pris yw £16.00. Am ragor o fanylion, cysylltwch â Llinos Davies (Ffôn 674478) cyn gynted ag sydd bosib.

PLAID CYMRU. Enillwyr Clwb Cant mis Rhagfyr oedd:

1. Deiniol Evans; 2. James Jones.

Enillwyr mis Ionawr oedd:

1. Arwyn Roberts; 2. John Morris.

CLWB CANT Y SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr mis Rhagfyr:

1. Margaret Jones; 2. Vera Williams; 3. Doreen Fisher.

DIOLCHIADAU. Fe ddymuna Llywela, Dolanog,

Glanffynnon, ddiolch o galon i'r holl gymdogion, teulu a ffrindiau am eu cydymdeimlad a'r caredigrwydd a dderbyniodd ar amser trist o golli ffrind annwyl. Diolch hefyd i bawb ym Meddygfa Llanrug.

PROFEDIGAETH. Dymunwn anfon ein cydymdeimlad diffuant at deulu Harry Jeffrey Roberts, Tai Newyddion, Tan y Coed, sef Jeffrey, Janice a Margaret a'u teuluoedd. Bu farw Mr Roberts ar 7 Rhagfyr yn 87 mlwydd oed. Bydd yn golled i chi i gyd ar ei ôl.

LLONGYFARCHIADAU. Dymuniadau gorau i Dylan ac Amy, Gorlan y Rhos, ar cncdigacth eu merch fach, Paige. Mae'r teulu wedi gwirioni, sef Shaon (nain am y tro cyntaf!) a Hefin Pritchard ac, wrth gwrs, Ynel Llion. Pob bendith.

ESTYNNWN yr un dymuniadau i Gavin a'i bartner sydd wedi cael plentyn bach cyn y Nadolig. Llongyfarchiadau mawr i chi ac i Taid a Nain, Dilwyn a Sherry, Modurdy Groeslon Mare, Jason ac Alys.

DATHLU PEN-BLWYDD.

Llongyfarchiadau mawr i Ellen Wyn, Stad Afon Rhos, ar ddatlu ei phen-blwydd yn 40.

MERCHED Y WAWR. Nos Fawrth, 14 Rhagfyr, croesawyd nifer dda o aelodau gan y Llywydd, Menna Williams. Anfonwyd cofion annwyl at y Llywydd Anrhydeddus, Mrs Whiteside Thomas, gan ddymuno adferiad buan iddi wedi'i thriniaeth i'w chlun. Dymunwyd pen-blwydd hapus iddi hefyd yn 95 mlwydd oed. Ar Ionawr 14 bu dau dim o'r gangen yn Glasfryn mewn cystadleuaeth Bowllo a diolchir i'r aelodau am gynrychioli'r gangen.

Gŵr gwadd y noson oedd Arfon Gwilym - un a fagwyd yn sŵn diwylliant gwerin Meirionnydd yng nghyffiniau Dolgellau a Phenllyn. Treuliodd dalp o'i oes yn Sir Drefaldwyn yn ohebydd ar y Cymro cyn rhedeg busnes ym mhentref Penbontfawr. Bellach mae ganddo sawl diddordeb - y byd canu gwerin a cherdd dant ac hefyd ym myd yr offeryn traddodiadol. Ef sy'n rhedeg Cwmni Cyhoeddi Gwyn ac mae'n briod â Sioned Webb, Pennaeth Canolfan Cerdd Williams Mathias, Caernarfon.

Testun ei sgwrs oedd 'Canu Plygain', arferiad y gellid dweud oedd yn perthyn yn arbennig i Sir Drefaldwyn ac iddo barhau'n boblogaidd yno yn hwy nag unman arall yng Nghymru. Un o'r oriau gweddi canonaidd ydoedd yn wreiddiol am hanner nos, ond weithiau gyda'r wawr, ar ganiad y ceiliog, a'i dilyn gan foliannu gyda charolau yn gynnar ar fore Nadolig neu o gwmpas adeg y Nadolig.

Caed unawdwyr a phartion yn eu tro yn canu carolau Cymraeg traddodiadol, gan amlaf yn ddigyfeiliant gydag alaw, tenor a bas. Byddai hawl defnyddio copi ac mac teuluoedd wedi gwarchod copiau o garolau arbennig hyd heddiw. Yn aml, dynion yn unig fyddai'n canu.

Mae traddodiad y Plygain wedi marw allan mewn llawer

lle bellach ond mae'n parhau mewn nifer o ardaloedd o hyd. Yn hytrach nag oriau maith - rhyw awr neu ddwy yw'r gwasanaeth heddiw a diolchir fod yr alawon gwerin a'r hen garolau yn cael eu cadw ar gof a chadw i'r oes a ddel. Diolchwyd i Arfon Gwilym gan y Llywydd ac yn amlwg ddigon roedd pawb wedi mwynhau ei sgwrs a gwrando ar ei lais gwerinol.

Dilynwyd gyda phwnsh a mins pei a diolchwyd i Phyllis am ofalu am y pwnsh ac i genod Penisarwaun am helpu, a diolchwyd i Ann Lloyd am y mins peis. Enillydd y raffl oedd Nan Jones. Dymunwyd Nadolig Llawen i bawb.

* * *

Nos Fawrth, 11 Ionawr, aeth cynrychiolaeth gref o'r gangen i Siop Lyfrau Palas Print, Caernarfon. Estynnwyd croeso cynnes iawn gan y Llywydd, Menna, a dymunwyd Blwyddyn newydd Dda i bawb. Braf oedd gweld Helen Parry yn bresennol wedi ei thriniaeth yn yr ysbyty. Atgoffwyd pawb am Bwyllgor Trefniadau Llanellwedd yn festri Capel Cysegr, Bethel ar 17 Chwefror. Parod iawn oedd pawb i noddi Margaret Parry a Mair Huws gyda'u awr o dawelwch er budd Plant Byddar ar 21 Ionawr.

Estynnwyd croeso i bawb gan Eirian James a bu'n olrhain ei hanes a'i diddordeb mewn llyfrau ers yn blentyn ifanc yn Llandeilo. Gwireddwyd ei breuddwyd o gael rhedeg siop lyfrau a bellach mae dwy siop ganddi, sef Palas Print Caernarfon a Siop Pendref Bangor.

Cafwyd sgwrs gartrefol braf gan y cyfeithydd a'r llenor, Meg Elis. Y llyfr a drafodwyd ganddi a hynny'n hynod o ddifyr oedd *Nain/Mamgu* y llyfr delfrydol ar gyfer unrhyw un sy'n nain, sydd â nain, neu sy'n cofio mam-gu. Yn ôl y broliant 'Mae'r berthynas rhwng ŵyr neu wyres â'i nain

neu fam-gu yn gallu bod yn un arbennig iawn'. Dyma gasgliad o ysgrifau, stori a soned gan amrywiol awduron - megis Lyn Ebeneser, Marged Esli, Bethan Gwanas, Sharon Morgan a nifer o ysgrifenyddyr difyr eraill.

'Yn y gornel' oedd stori Meg Elis, Gwraig i ficer oedd ei nain hi, pawb yn ei nabod hi a hithau'n eu nabod nhw ac, yn bwysicach na dim, yn siarad Cymreg! Un o Fethesda oedd hi ac yn ifanc iawn syrthiodd mewn cariad â thaid Meg. 'Pâr ifanc o Gymry yn byw ym Methesda ddechrau'r ugeinfed ganrif. Roedd hi'n ddu a gwyn yng nghyfnod Streic y Penrhyn. Ond bu'n trin plwyfolion, lleddfu briwiau a chreu celfyddyd. Digon o blwc i wneud popeth ond eistedd yn y gornel.'

Mae nain yn gallu bod yn batrwm i mam, a mam yn batrwm i'w phlant. Gobeithio y bydd ein hwyron a'n hwyresau ninnau yn gallu dweud amdanom ninnau, 'Roedd hi'n llond ei byd, yn llond fy myd innau.' Gwyn ein byd ninnau.

Diolchwyd i Meg Elis am ddod â gwên i'r wyneb ac am wneud i ni sylweddoli mor werthfawr yw plant ein plant. Cafwyd cyfle i bori drwy a phrynu llyfrau newydd sydd ar y farchnad. Diolchwyd i Selwyn am ofalu fod paned o de, coffi neu wydryn o win coch neu wyn ynghyd â bisgedi i bob un ohonom. Dymunir pob llwyddiant i Siop Palas Print a Siop Pendref Bangor.

Chwefror 8fed cawn sgwrs gan Gari Wyn, dyn y garej.

DIOLCH. Dymuna Mrs Kathleen Jones, Kemard, Ffordd Glanffynnon, ddiolch yn fawr iawn i bawb, teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r dymuniadau da tra yn cael llawdriniaeth yn Ysbyty Walton, Lerpwl, ac i'r rhai a fu yn ymweld â hi tra yn gwella yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.

Blwyddyn Newydd Dda

oddi wrth

Elaine a Staff

Siop Trin Gwallt a Harddwch

Elaine's

LLANRUG

Ffôn: 672023



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch

â Gomer Roberts

Ffôn: 01286 870462

Symudol: 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

CYNGERDD NADOLIG MYNYDD GWEFRU.

Gwnaethpwyd casgliad o £175 yn ystod y cyngerdd blyneddol, ac fe drosglwyddwyd yr arian i Ambiwllans Awyr Gogledd Cymru. Diolch i bawb a gyfrannodd, drwy gefnogi neu drwy gymryd rhan, yn yr achlysur.

FFAIR NADOLIG. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r Ffair Nadolig yn Festri Capel Coch brynhawn Mercher, 8fed Rhagfyr.

CYFARFOD CAROLAU'R GYMDEITHAS UNDEBOL. Diolch unwaith eto i bawb a ddaeth i ymuno â ni yn y Noson Garolau, nos Fawrth, 14eg Rhagfyr, yn Festri Capel Coch.

Cafwyd eitemau gan Gôr o Ffrindiau sydd yn Fytholwyrdd, dan arweiniad Mrs Mattie Hughes gyda Miss Marcia Thomas yn cyfeilio. Yr organydd i'r canu cynulleidfaol oedd Mr Gareth Jones.

Llywyddwyd y noson gan y Parchedig John Pritchard, a rhwng yr eitemau bu yn darllen darnau o'r Ysgrhythur a sôn am dri gair, Talent, Taliad a Taleb.

Diolch i bawb a gymerodd ran, i'r rhai a fu'n addurno a pharatoi'r Festri, i'r rhai a baratodd y lluniaueth ac a fu'n gweini arnom, ac i'r rhai a fu'n glanhau a chlirio wedi gwyl y Nadolig.

Gwnaed casgliad o £100 yn rhodd i Mr Alan Pritchard, Cambrian Terrace, fydd yn derbyn llawdriniaeth yn y flwyddyn newydd, pob dymuniad da iddo.

CYMDEITHAS UNDEBOL. Cafwyd noson hwyliog ar nos Fawrth, 11eg o Ionawr yn Festri Capel Coch, lle bu Mr Elfyn Thomas, Cwmni Seren Arian yn sôn am hanes Dechreuad Y Cwmni. Diolch yn fawr iawn am noson ddiddorol a braf.

Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Gymdeithas yn Festri Capel Coch, nos Fawrth, 8fed o Chwefror am 7 o'r gloch, dan ofal y Parchedig John Pritchard, fydd yn archwilio ein gwybodaeth, gyda Cwis. **DIOLCHIAU.** Hoffai Alan, Teleri, Tomos a Rhys ddiolch yn fawr iawn i Gymdeithas Undebol Capel Coch am eu rhodd garedig iawn, yn dilyn eu Cyfarfod Carolau, tuag atom yn ddiweddar. Rydym ni fel teulu yn hynod o ddiolchgar i chwi am eich caredigrwydd a'ch cefnogaeth yn ystod yr amser yma.

Hoffai Alan, Teleri, Tomos a Rhys ddiolch o waelod calon am garedigrwydd Ian Hughes yn casglu arian tuag atom fel teulu, drwy redeg Marathon Eryri

2010. Rydym fel teulu yn hynod o ddiolchgar i Ian a'r teulu, ac i bawb a noddodd ac a gefnogodd Ian yn ystod y Ras. Hoffem longyfarch Ian ar ei ymdrech yn y Ras ynghanol y tywydd garw, ac i orffen mewn amser da iawn.

Dymuna Alan, Teleri, Tomos a Rhys gymryd y cyfle yma i ddiolch i drigolion Llanberis am eich dymuniadau da, eich cymorth a'ch geiriau caredig yn ystod y misoedd diwethaf. Mae'r gefnogaeth yma yn gymorth mawr i ni fel teulu. Blwyddyn Newydd Dda a phob bendith i bawb.

DIOLCH. Mae Glenys Owen, 9 Stryd yr Wyddfa, yn diolch yn fawr am y cardiau, galwadau ffôn a dymuniadau da a dderbyniodd yn ystod, ac yn dilyn ei llawdriniaeth ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Iola Evans, Stryd Fawr, ddiolch o waelod calon i'w chymdogion, ffrindiau, aelodau Capel Jerusalem a phawb a ffoniodd ac a alwodd i'w gweld. Diolch i chwi am eich caredigrwydd a'ch cymwynasau lu.

YSGOL YRRU ELIDIR DRIVING SCHOOL

07922121226

Hyllfordwraig wedi ei chymeradwyo gan yr ASG

Jacqueline Williams

Gwers Gyntaf, 2 awr am bris 1

Blodau Racca

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

PRYD? PWY?



Gŵyl Ffilmiau Mynydda Llanberis

Daw'r Wyl unwaith eto i'r Dyffryn, ym mis Mawrth. Mae'r Wyl, ymysg llawer o bethau eraill, yn ymdrech i ysbrydoli pobol o bell ac yn lleol i ymchwilio, a darganfod mwy, am ddiwylliant y mynyddoedd ac hefyd addysgu pob oedran am yr ecoleg, daeareg a'r amgylchedd. Mae'r Wyl yn ceisio gwneud hyn trwy ddangos ffilmiau, ffotograffiaeth, addysg, celf a siaradwyr.

Dros y penwythnos bydd yna lawer o weithgareddau, a pethau yw gweld tu mewn, ac o amgylch y pentref, fydd yn addas i bob oedran.

Ar nos Wener yr 18fed, am 9 o'r gloch yn Nhafarn Dolbadarn, bydd Noel Craine a George Smith yn cynnal y Cwis Mynydd. Mae'r cwis yma yn boblogaidd iawn. ond byddwch yn barod - dyw o ddim yn hawdd!

Fe fydd yna arddangosfa o luniau gan ffotograffwyr lleol, Geraint Thomas a Gareth Roberts, yn Eglwys Sant Padarn.

Ar fore Dydd Sadwrn a Dydd Sul, rhwng 10yb a 4yh, mi fydd yna gyfle i blant bach y pentref gymryd rhan mewn gweithdy celf sydd yn cael ei gynnal i

fyfyr'r grisiau yn Caffi Pete's Eat's, lle y byddant yn ceisio adeiladu Map o'r dyffryn, o Bont Penllyn i Pen y Pas. Hefyd, fe fydd yna gystadleuaeth ffotograffiaeth i blant, a helfa drysor yn cael ei chynnal o'r un fan.

Bydd rhai o ffenestri siopau Stryd Fawr Llanberis yn arddangos gwaith celf cystadleuwyr cystadleuaeth celf Ysgol Gynradd Dolbadarn.

Rhan o'r Wyl, yw'r gystadleuaeth ffilmiau i bobol ifanc. Mae trefnwyr yr Wyl yn estyn gwahoddiad i unrhyw berson ifanc o dan 18 oed i gyflwyno ffilm fer (o dan 14 munud) neu ffilm hir sydd gyda themâu yr awyr agored, yr amgylchedd neu/a diwylliant mynyddoedd. Fe fydd y ffilm fuddugol yn cael ei dangos dros benwythnos yr Wyl. Am fwy o fanylion am yr Wyl, a sut i gymryd rhan yn y gystadleuaeth, gallwch ymweld â'r wefan www.llamff.co.uk.

Dyddiad cau'r gystadleuaeth yw'r 20fed Chwefror 2011 Noddi'r y gystadlcuaeth gan gwmni lleol, DMM.

Am fwy o wybodaeth ac am docynnau i'r Wyl, ffoniwch 01286 871 534

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444

★ Gwerthwr Glo

★ Olew Gwres Canolog

i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!



DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

Dymunir Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion yr ardal.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at unrhyw un a fu'n dioddef anhwylder neu salwch yn ddiweddar.

YSGOL SUL UNDEBOL. Yn anffodus, oherwydd yr eira, ni chafodd y plant gyfle i berfformio eu sioe Nadolig er gwaethaf yr holl ymarferion. Cafodd y plant gyfle i fynychu parti Nadolig yr Ysgolion Sul yng Nghapel Coch a diolchir i bawb a drefnodd. Mae'r Ysgol Sul wedi ailgychwyn eto eleni ac yn cyfarfod yn festri'r capel am 10.15 bob bore Sul. Croeso i aelodau hen a newydd i ymuno. CYDYMDEIMLO. Estynnir ein cydymdeimlad dwys at deulu'r ddiweddar Mrs Eirlys Gibson, Hafod Oleu a fu farw'n frawychus o sydyn yn ystod mis Rhagfyr.

Estynnir hefyd ein cydymdeimlad at deulu'r ddiweddar Mrs Grace Maxwell yn eu colled hwythau.

DIOLCH. Dymuna Mari, 3 Hafod Oleu, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau, staff gofal cartref, staff Plas Pen Gwaith a chymdogion am eu caredigrwydd tuag ati tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

DIOLCH. Dymuna Ellis Wyn, 6 Ffordd Deiniol, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tra bu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Hefyd carai Ellis a Margaret ddiolch am y cardiau, arian a chydymdeimlad tuag atynt ar ôl colli Mair Lloyd, chwaer arbennig.

Trosglwyddwyd yr arian i Ambiwlans Awyr Cymru.

DYMUNA Mrs Elizabeth Hughes, 1 Bwthyn, ddiolch yn fawr am y rhoddion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed.

DYMUNA Mrs Beryl Griffiths, 5 Mass Gwyllfa ddiolch o galon i deulu a ffrindiau am yr holl anrhegion a chardiau a gafodd yn ystod cyfnod y Nadolig.

Diolch i'r gofalwyr cartref am fod mor garedig yn cerdded trwy'r eira i ofalu amdani.

Blwyddyn newydd Dda iawn i bawb

DYMUNA Dylan a gweddill teulu'r diweddar Dewi (Tate) Williams, 75 Pentre Helen, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd yn dilyn eu colled ddiweddar. Derbyniwyd nifer fawr o gardiau a rhoddion er cof amdano ac fe gyflwynwyd £750 i'w rannu rhwng Eglwys Llandinorwig a Meddygfa Llanberis.

Diolchir yn arbennig i'r ficer, Mr Townsend; warden yr eglwys, Mrs Eleanor Morris, a'r organydd, Mr Monroe. Hoffwn ddiolch hefyd i Dafydd a staff y Bull am drefnu'r lluniaeth ac i Gwynfor am drefniadau'r angladd.

Mi fydd colled fawr ar ôl Dewi i'w holl deulu, ffrindiau a chymdogion.

YSGOL GWAUN GYNFI

Arlunwyr Enwog. Cyn y Nadolig gosododd Mr Steffan Roberts, Pen Ceunant Isaf, Llanberis LL55 4UW gystadleuaeth arlunio i blant blwyddyn 6 yr ysgol. Y dasg oedd gwneud llun o'i oriel - Pen y Ceunant. Nododd Steffan bod gwaith yr holl blant o safon da iawn. Fframiwyd ac arddangoswyd y lluniau buddugol yn Oriel Pen y Ceunant wrth ochr lluniau Kyffin Williams dros gyfnod y Nadolig. Efallai fod rhai ohonoch wedi eu gweld.

Mae Steffan ac aelodau'r ysgol yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth pobl Nant Peris, Brynrefail ac Oriel Cwm. Dyfarnwyd gwobrau ariannol a chyfle i rai fynd yno am de gyda'u teuluoedd. Beirniadwyd y gwaith gan artistiaid a thros 750 o ymwelwyr dros gyfnod y Nadolig.

Y canlynol oedd yn fuddugol: Cyntaf: Kelly Allen; Ail: Leanne Williams; Trydydd: Shauna Taylor;

Pedwerydd: Gruffydd ap Ieuan.

Mae pawb yn ddiolchgar iawn i Steffan am ei gefnogaeth a'i frwdfrydedd yn cynorthwyo'r plant i ddatblygu eu sgiliau arlunio.

Yn ogystal cynhaliwyd cystadleuaeth arlunio ar gyfer blynyddoedd 3, 4 a 5.

Y canlynol oedd yn fuddugol: Bl.5: 1. Sam Roberts; 2. Katie Evans; Bl.4: 1. Ella Jones; 2. Glain Hughes; Bl.3: 1. Jacob Bolton, 2. Alis Jones.

Nofio

Llongyfarchiadau i'r disgyblion dilynol am gyrraedd y lefelau canlynol:

Gwobrau Sgiliau Dŵr - Gradd 5: Gwilym Thomas, Shauna Taylor, Rhys Jones.

Gradd 6: Iwan Jones, Enlli Roberts, Llywelyn Owen.

Gradd Cwricwlwm: Iwan Jones, Rhys Jones, Gwilym Thomas, Llywelyn Owen, Shauna Taylor, Enlli Roberts.

GŴYL DEINIOLEN A'R CYLCH. Mae Carnifal Deiniolen, a fu mor llwyddiannus y llynedd, bellach wedi newid ei enw ac yn y dyfodol fe fydd yn cael ei adnabod fel Gŵyl Deiniolen a'r Cylch. Mae croeso i unrhyw

aelod newydd ymuno er mwyn hwyluso a chynorthwyo gyda threfniadau'r digwyddiad eleni. Fe drefnwyd noson hynod lwyddiannus cyn y Nadolig yng Ngwesty Padarn Lake, Llanberis, yng nghwmni'r comediwr, Tudur Owen. Mae Tudur yn un â chysylltiadau cryf â'r pentref, gyda'i ddiweddar fam, Mrs Gweneth Owen, yn enedigol o Ddeiniolen. Fe gafwyd noson hwyliog a llwyddiannus a fwynhawyd gan bawb.

Yn ogystal, trefnodd pwyllgor yr ŵyl, gyda chydweithrediad Cymdeithas Golff Deiniolen, ddisgo Nadolig a groto Siôn Corn yn Nhŷ Elidir. Cafodd plant y pentref gyfle i gyfarfod Siôn Corn a derbyn anrheg ganddo. Roedd bwriad, yn ogystal, i fynd â Siôn Corn o amgylch y pentref cyn y Nadolig ond, oherwydd y tywydd garw, ni allwyd cynnal y noson.

Penderfynwyd cyflwyno'r siocled a oedd i'w rannu i blant y pentref i wardiau plant Uned Ddamweiniau Ysbyty Gwynedd. Diolch i bawb am eu cymorth wrth drefnu'r gweithgareddau.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CYHOEDDIADAU'R CAPEL.

Cynhelir yr oedfaon a chyfarfodydd o'r Ysgol Sul fel a ganlyn yn ystod mis Chwefror.

6: 11.00: Ysgol Sul

2.00: Gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson

13: 11 Ysgol Sul

20: Dim Ysgol Sul

(Hanner tymor)

2.00: Parch Trefor Jones

27: Dim Ysgol Sul

Diolch i blant yr Ysgol Sul a'r bobl ifanc am baratoi ar gyfer Oedfa Nadolig y capel. Yn anffodus oherwydd y tywydd nid oedd yn bosibl cynnal yr Oedfa eleni. A fu digwyddiad

o'r fath o'r blaen?

CYMDEITHAS CAE

CHWARAE CAEATHRO.

Mae'r Pwyllgor wedi derbyn nifer o ddiolchiadau gan bobl o bob oed sydd wedi gwerthfawrogi eu hymdrechion dros y gymuned adeg yr Ŵyl. Yn eu tro mae'r Pwyllgor yn dra diolchgar i hap-chwaraewyr y Tynfa Misol am eu cefnogaeth barhaol, sy'n eu galluogi i ariannu'r digwyddiadau. Yn anffodus bu rhaid gohirio'r canu carolau (a'r cawl!) o amgylch y goeden olcuedig oherwydd bod y tywydd yn rhy 'dymhorol'!!

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y prawn • 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf, wedi ei sefydlu i hyrwyddo datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif waithgareddau reoleni (Caffi Trwyddedig, Ystafellau Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llundropio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org

caban@caban-cyf.org

01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Blodau Lieneke

Blodau Priodas
Priodferch
Lleoliad • Byrddau

Gae Rhydau Pontrug
Caernarfon LL55 2TN

Symudol 7510 551 631

Gwefan- <http://www.blomstervill.no>

E-bost- blomstervill@robin.no

ANTUR WAUNFAWR AILGYLCHU

Gwaredu Data

ANTUR

WAUNFAWR
AILGYLCHU

Llarpio Dogfennau Cyfrinachol

www.anturwaunfawr.org

ffôn: 01286 669330

swyddfa@anturwaunfawr.org

YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu:



Bwyd lleol

Busnesau cefn gwlad

Economi wledig

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?

Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfringu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 306936

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar

■ THE LEGACY
■ ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

with food in Wyddfa

Ffôn: 08444 119 004

**GERAINT OWEN
CARPEDI**

CARPEDI • VINYLs • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

**Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ**

Ffôn: **(01286) 650834**

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor **7.30 - 6.30**

8.00 - 6.00 (Sadwrn)

9.00 - 12.00 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



cysylltwch â Mantell Gwynedd

– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfynedig drwy Warant 3420271

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: **(01286) 870202**

TREFNWYR ANGLADDAU

**Stôf Draddodiadol neu FODERN
i gynhesu eich tŷ**

CYSYLLTWCH Â



JOHN HUGHES a'i FAB
IARD LO • Carmel • Gwynedd
01286 882160



**BOCS O
FFRWYTHAU & LLUSIAU**

£10. Wedi ei ddanfôn
AM DDIM yn lleol

ffoniwch - WIL, PEN-LLYN 079990926484

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870088**

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob
math o logi preifat – nosweithiau allan,
partïon, tripiâu ac ati. Gwasanaeth
personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

(Cyrhaeddodd y newyddion isod yn rhy hwyr i'w cynnwys yn y rhifyn diwethaf.)

PROFEDIGAETH. Ar Tachwedd 12 bu farw Mrs Grace Ellen Maxwell o 24 Rhydfadog yn Ysbyty Gwynedd, yn 96 mlwydd oed. Roedd yn enedigol o Ddeiniolen ond wedi byw yn Ninorwig am nifer o flynyddoedd, yn gyntaf yn y Bigil ac yna ym Maes Eilian a'r plant yn mynychu'r ysgol yma yn Ninorwig.

Cynhaliwyd y gwasanaeth, dan ofal y Parchedigion John Pritchard a Dewi Morris, Porthmadog, yn Eglwys Crist Llandinorwig ar 17 Tachwedd. Rhoddwyd ei gweddillion i orffwys hefo'i gŵr ym Mynwent Macpela, Deiniolen.

Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu yn eu profedigaeth a boed iddynt gael nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau tywyll yma. Dymuna'r teulu ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem.

ADREF O'R YSBYTY. Da yw deall fod Mrs Dilys Williams, Bron Eilian, wedi cael dod adref o Ysbyty Gwynedd ar ôl derbyn llawdriniaeth. Gobeithio, Dilys, eich bod yn teimlo yn well bob dydd ac y byddwch yn gallu mynd o gwmpas yn reit fuan. **DYMUNA** teulu y ddiweddar Mrs Grace Ellen Maxwell, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt wedi eu profedigaeth lem o golli mam garedig, nain gariadus a hen nain. Diolch yn fawr iawn i bawb.

CODI'R ECO. Mae angen cael rhywun i ddosbarthu'r Eco ym mhentref Deiniolen. Bydd angen codi'r Eco unwaith y mis o'r safle plygu a'i ddosbarthu i saith tŷ, yna byddant hwy yn mynd â fo o dŷ i dŷ.

DINORWIG (mis yma)

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Llongyfarchiadau i Mrs Yvonne Brennan, Afallon, a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed ar 22 Rhagfyr. Deall iddi gael diwrnod wrth ei bodd gan i rai o'r teulu, yn ddiarwybod iddi, baratoi parti pen-blwydd iddi yn y cartref. Yn oedd ar ben ei digon.

DECHRAU'R FLWYDDYN. Ar ddechrau blwyddyn newydd, ga i ddymunio Blwyddyn Newydd Dda i bawb ac i'r rhai na fu 2010 yn garedig wrthynt, ga i ddymunio blwyddyn dipyn gwell cleni. Ar ddechrau blwyddyn fel hyn yrydym yn anfon ein cofion at Mrs Alice

Thomas, 1 Bro Elidir gynt, sydd yn cartrefu erbyn hyn yn Plas Pengwaith, Llanberis, gan obeithio eich bod yn cadw yn weddol, ac yn barod am flwyddyn newydd. Dymunwn bob bendith ac iechyd ichi.

DIOLCH. Dymuna Alice Griffith, Tan y Bwlch, Ann a Iolo, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli priod a thad annwyl.

Diolch hefyd am yr ymweliadau, y rhoddion hael, y cardiau a'r galwadau ffôn. Diolch i'r Parchedigion Olaf Davies, William John Lewis a'r Canon Idris Thomas am eu gwasanaeth yn yr Amlosgfa ac i'r ymgymwrwr, Dylan Griffith, Penisarwaun am ei drefniadau urddasol.

Llawer o ddiolch i bawb. **DAMWAIN YN YR EIRA.** Drwg gennym ddeall fod Mrs Betty Bower, Tan y Marian, wedi syrthio wrth drio glanhau eira oddi ar y car a'i bod yn dal i fod i mewn ac allan o Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella, Betty, inni gael eich gweld yn mynd a dod hyd yr ardal.

DIOLCH. Dymuna Mrs Sally Brennan ddiolch o galon i'w ffrindiau a'i chymdogion am yr anrhegion gwych a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd a'r Nadolig. Hefyd diolch i'r teulu am y parti ardderchog ac am y croeso arbennig a gafodd ganddynt ar achlysur ei phen-blwydd. Dymuna Flwyddyn newydd Dda i bawb a hefyd diolch i bawb am gofio am ei phen-blwydd.

COFIO ANDRO

Dydd o dristwch yn hytrach nac un o lawenydd fu dydd Nadolig 2010 yn Nhan y Bwlch pan dderbyniwyd y newydd trist am farw Andrew Griffith yn 95 mlwydd oed yng nghartref Ceris, ger Bangor. Estynnwn ninnau fel ardal cin cydymdeimlad a'r teulu yn eu colled a'u galar.

Mab ydoedd i John a Mary Griffith, Tan yr Henffordd, Clwt y Bont, yr ieuengaf ond un o'u naw o blant. Nid oedd unman cystal â Clwt y Bont yn ei olwg ond symud oddi yno a wnaeth a dod i fyw i Minffordd, Dinorwig, pan briododd efo Alice yng Nghapel Sardis yn 1947 - y briodas gyntaf i'w gweinyddu yn y capel. Symudodd y teulu yn i fyw i Dan y Bwlch yn ddiweddarach ac erbyn hynny yr oedd dau o blant, sef Ann a Iolo, wedi eu geni iddynt. Yn ddiweddarach, cyrhaeddodd wyres a thri o wyrion, yn ogystal â gor-wyres a thri gor-wyr a'r taid a'r hen daid yn gwirioni hefo hwy i gyd.

Yn fuan wedi ymgartrefu yn yr ardal taflodd ei hun i weithgareddau'r pentref - yn eisteddfod, carnifal a snwcer. Gofalai Anwen Bryn ifanc alw amdano yn rheolaidd i gyd-chwarae â hi yn y clwb snwcer. Er na ellid ei gyfrif yn gerddorol wrth natur, cefnogai Seindorf Deiniolen yn selog ac fe fuont hwythau yn cofio am hynny trwy ei ethol yn aelod anrhydeddus o bwyllgor y band. Anrhydeddwyd ef hefyd fel un o'r ddau gyn-chwarelwr hynaf y fro a ddewiswyd i ddadorchuddio'r Gofeb i goffau'r chwarelwyr yn Allt Ddu.

Nid oedd neb yn fwy selog na fo yng Nghapel Sardis ond gwrthodai gymryd ei fedyddio. Oherwydd ei ffyddlondeb penderfynodd y diweddar Barchedig Ifor Williams, a oedd yn weinidog yno ar y pryd, ei wneud yn aelod anrhydeddus. Yr unig adeg y gwelid ei sedd yn wag mewn oedfa oedd yn y blynyddoedd diweddar, pan ddangosid gêm bêl-droed go bwysig ar y teledu ar bnawn Sul. Mynnai aros gartref i weld honno.

Pêl-droed oedd ei ddiddordeb pennaf ac ni fu neb yn fwy selog nag ef yn cefnogi tîm Bangor City. Bu'n chwaraewr talentog ei hun i dimau Llanberis a Llanrug ac un o'r achlysuron mwyaf pleserus iddo yn ddiweddar oedd cael ymweld â chae pêl-droed Newcastle United tra yno ar wyliau. Roedd ef ei hun wedi chwarae yno tra gwasanaethai yn y Fyddin yn ystod y rhyfel ac mor falch ydoedd o gael dangos yr union le y rhedai'r timau allan ar y cae bryd hynny.

Pleser mawr arall ganddo oedd eistedd tu ôl i olwyn ei gar. Torrodd ei galon pan fu'n rhaid iddo roi'r gorau i yrru yn 93 oed. Pan yn y fyddin arferai yrru un o'r uwch swyddogion ar draws Ewrop, hyd yn oed i Belsen.

Hanner gair o awgrym gan Alicc ci bod yn awyddus i fynd i rywle, boed i Gyrrddau Chwiorydd y Bedyddwyr, i briodas, i ymweld â lleoedd diddorol neu i siopau a byddai yno'n barod tu ôl i'r olwyn. Nid oedd yr un siwrnai yn rhy bell ganddo.

Gwaetha'r modd, dirywiodd ei iechyd a bu'n rhaid iddo fynd i Garfref Gofal lle cafodd pob ymgeidd. Diolch am y caredigrwydd a ddangoswyd iddo gan yr holl staff. Llawer o ddiolch hefyd i'r rhai fu'n ymweld ag ef yno.

Chwithdod mawr inni fel ardal yw colli'r cellwair a'r tynnu coes a'r wên ddireidus.

*Cofiwch gefnogi
ein hysbysebwr*

Diolch am gael adnabod un fel

ef 'Andro' er cof

Mowld cynefin ei ffraethineb
chwarel,

ei chur a'i gwarineb,
hi oedd ardal diddordeb
hi a'i naws - ŵr ail i neb.

Cae'r pentref, ac adref a'r ci
- y band,

a byd cydaddoli,
ond brawd y sedd gefn nid bri
i eraill boed blaenori...

O lafur bell gyflafan - yn ôl
y daeth, nef hen drigfan,
hon i'w fodd, hapus o'r fan
hi ei gyfoeth, hi'n gyfan.

Bu heddiw gydnabyddion
a'u taliad
i'r teulu fu'n ffyddlon;
yn y saib - 'rôl pob mân sôn
adladd 'Rhen Andro' - bodlon!

Nawr tros gorwel tawelwch
o'i oes hir
i sain hedd pob heddwch;
gedy'r lle a gedy'r llwch
i rwydwaith cof hyfrydwch.

NORMAN CLOSS
05.01.2011



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr
hoffech ei drafod gyda'ch AC
mewn cymhorthfa, yna
cysylltwch ag ef yn ei
swyddfa yng Nghaernarfon
neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248-372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS SUL, 20 CHWFROR

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, 3 MAWRTH

Dyddiad Gosod

NOS SUL, 27 CHWFROR

Sefydliad Coffa Llanrug

CHWARAEON

YDI'R DULL PYRAMID YN GWEITHIO?



Mae'n anodd - ac annheg - mi wn rhoddi barn ar dystiolaeth un gêm neu ddigwyddiad. Es draw i Eithin Duon i weld y gêm ddarbi rhwng Llanrug a Llanberis. Buddugoliaeth haeddiannol i Lanrug a gôl Mathew Philips yn werth ei gweld. Fflach o allu yng nghanol gêm ddi-fflach. Mwy o gardiau melyn nac eiliadau cofiadwy, a hynny heb y 'cythraul' gemau a fu. Braf

gweld nifer o chwaraewyr ieuauc - a lleol - yn y ddau dîm. Rwy'n cyfaddef fy mod wedi gweld mwy o gemau Cynghrair Gwynedd eleni. Os yw safon y gêm a welais i yn adlewyrchiad o ddwy gynghrair yn uwch, yna mae rhywbeth o'i le.

Ar y ddwy lefel mae un elfen yn amlwg. I feddwl fod y chwaraewyr yn gwylio cyn gymaint o'r 'sêr' ar y teledu, ac yn cael eu rheoli/hyfforddi, rwy'n tybio mai prin iawn yw awydd y chwaraewyr i 'symud' oddi ar y bêl, er y waedd fodern 'dangos dy hun'. Mae rhoddi opsiynau i'r sawl gyda'r bêl yn hanfodol. Y tueddiad oherwydd y gwendid yma yw rhyw symudiad dwy bas ac yna pêl hir uchelgeisiol. Gwendid arall welaf i yw'r diffyg gallu i amddiffyn - a thaclo mewn rhai achlysuron - gan chwaraewyr ganol cae. Iawn yn mynd ymlaen, ond gwan yn dod yn ôl. Rhaid cael y cydbwysedd.

Buasai chwaraewr o fath Selwyn Allsup yn gaffaeliad mawr heddiw. Edrychwn ymlaen i well gêm pan fydd y ddau dîm yn cyfarfod yng Nghwpan Barritt.

DIM OND GÊM

V Llifogydd a'r Llundw fydd y delweddau fu'n diffinio Haf Awstralia 2010/2011. Y glaw di-baid a'i rym dirdynnol yn rhoddi pwysigrwydd 'y gêm' yn ei gwir gyswllt.

Ni ddaeth y glaw i achub cricedwyr Awstralia a drylliwyd eu hamddiffyn yn deilchion gan wrthwynebwyr oedd yn gryfach ym mhob agwedd o'r gamp.

Un clifn bwysig oedd manylder paratodau tîm Lloegr ar gyfer y gyfres. Yr oedd dewis y bowlwyr cywir ar gyfer yr elfennau yn benigamp. Nid cyflymder y bowlwyr fyddai'n allweddol ond y gallu i wyro'r bêl newydd a chael y bêl i adlamu oddi ar y llain. Cyflawnodd bowlwyr cyflym Lloegr yn enwedig Anderson - y dasg yn berffaith. Ni fu Swann - y troellwr - mor llwyddiannus cyn belled â nifer y wicedi, ond llwyddodd i ffrwyno llif rheddiadau'r tîm cartref a chynnal y prysedd. Agwedd bwysig yw hyn ar lefel prawf, yn enwedig o gofio greddf ymosodol cynhcnid yr Awstraliad.

Rodd batio Cook, yn enwedig, yn dyngedfennol - torrwr crib os bu un erioed.

Arweiniad cadarn, pwrpasol Strauss yn cynnal y pwysau, mewn gwrthgyferbyniad llwyr i berfformiadau Ponting, capten Awstralia. Roeddwn yn tueddu i wyllo'r chwarae am y ddwy awr gyntaf, yna ychydig oriau o gwsg, a chodi i weld yr awr olaf. Yr un oedd patrwm yr 'oriau coll'. Batwyr Lloegr, oherwydd partneriaeth anferth, neu bowlwyr Lloegr wedi cipio wicedi - gyda chymorth maesu o'r radd flaenaf. Oedd, roedd rhai elfennau annymunol, a'r cyfan dan lygaid rhyfeddol y camerâu. Diolch am y dechnoleg ar brydiau, ac eto mae'r 'farn bersonol' wrth ddyfarnu yn rhan annatod o'r gêm. Ar ochr ymddygiad, gellir gweld a dangos gormod ar brydiau. Yr elfennau yma, yn anffodus, sy'n dylanwadau ar y gwylywyr ac sy'n cael ei adlewyrchu ar ein meysydd criced a phêl-droed.

Yna'r cyfresi undydd. Mae arwyddion - ar drothwy Cwpan y Byd - fod yr Awstraliad yn taro'n ôl, a gwelwyd gemau agoriadol rhyfeddol i'r cyfresi 20/20 a'r 50 pŵlawd.

Nid un i orwedd i lawr yw'r Awstraliad dan ei gapan gwyrdd - yn enwedig Watson.

Llongyfarchiadau i

MERCHED Y FRO YN BOWLIO DEG



Ydi hi'n gamp deudwch? Wel, triwch ofyn y cwestiwn yna i aelodau Merched y Wawr canghennau Deiniolen, Llanrug a'r Waunfawr! Cynhaliwyd cystadleuaeth sirol bowlwio deg y mudiad yng Nglasfryn yn ystod Ionawr, a daeth deg o dimau o wahanol ganghennau i ymgiprys am y bencampwriaeth. A thîm o fro'r 'Eco' oedd yn fuddugol. Doedd Cangen Waunfawr ddim wedi cystadlu o'r blaen, ond roeddent yn fuddugol ar y cynnig cyntaf.

Llongyfarchiadau iddynt. Mae'n amlwg oddi wrth y lluniau fod pawb wedi mwynhau, ac rwy'n siŵr y bydd edrych ymlaen am y gystadleuaeth nesaf.



hyfforddwr y tîm - Andy Flower - un o'n cyn-chwaraewyr draw yn Nhy Newydd. Yr ydym yn ceisio ci ddenu draw i roddi sgwrs i ni. Gwledd yn wir.

Mor wahanol i aeaf un arall o'n cyn-chwaraewyr, Matthew Maynard, a'i safiad draw ym Morgannwg. Mae haf cythryblus/diddorol o'n blaenau. Gwyliwch y lleiniau.

AR LWYBR Y TARW

Bu cryn ddilyn dartiau yr wythnosau diwethaf. Dau ddartiwr o'r Gogledd - o Ddinbych a Dolgellau - yn cyrraedd rownd gyn-derfynol y ddwy Gwpan Byd, a merch o Lanelli yn cyrraedd rownd derfynol y merched. Un yn curo Phil Taylor hefyd!

Coeliwch neu beidio mac'n gyfnod hanner ffordd yn y cynghrair dartiau lleol. Yn Neiniolen mae'r gobeithion gorau. Bull 'A' yn arwain y brif adran a Bull 'B' yn ail agos yn yr ail adran. Beth am 'Goron Driphlyg' yn Neiniolen eleni - y ddau dîm dartiau a'r tîm pêl-droed yn cael esgyniad. Yn y pwl mac Penbont yn drydydd yn y brif adran a'r Bedol 9 pwynt ar y blaen yn yr ail adran. Siawns am barti?

DIM OND GOFYN...

Cefais gynnig tocyn ar gyfer gêm rygbi Cymru v Lloegr yn ddiweddar. Gêm hwyr nos Wener. Taith ôl a blaen. Cost: £60. Gallaf gael tocyn ar gyfer gêm bêl-droed Cymru a Lloegr yn yr un fan ar oriau callach am bris yn amrywio o £5 i £25. Bydd y stadiwm yn llawn ar y ddau achlysur. Pa un gyda gwir ddilynwyr ys gwn i?

Yng nghyswllt y gêm bêl-droed yng Nghymru, ei meithrin a phwysigrwydd yr achlysur, pa un oedd yr achlysur pwysicaf y nos Fawrth o'r blaen. Caerdydd v Stoke neu T.N.S. yn erbyn Bangor? A ddangoswyd y gêm gywir yn fyw ar S4C?

Yn oes y prisiau tanwydd uchel, beth sydd yn rhwystro y cwmnïau rheilffordd rhag rhedeg 'gwasanacth trên arbennig' o'r gogledd i Gaerdydd ar gyfer gemau rhyngwladol. Efallai nad oes ganddynt ddigon o gerbydau?